# Herio Perfformiad Addysg

Cyfnod Amser

01 Mawrth 2026

**81**
Mesuryddion

| | |
|---|---|
| **59** Nifer Gwyrdd | **72.84%** % Gwyrdd |
| **19** Nifer Amber | **23.46%** % Amber |
| **3** Nifer Coch | **3.70%** % Coch |

*"Hyrwyddo cyflawniad a lles plant a phobl ifanc Gwynedd drwy sicrhau llywodraethiant, arweinyddiaeth a rheolaeth effeithiol ein hysgolion"*

# Acronymau

| | |
|---|---|
| PYD | Prydau Ysgol am Ddim |
| PLASC | Pupil Level Annual School Census |
| PMG | Plant Mewn Gofal |
| CAP | Cynllun Addysg Personol |
| SMART | Specific, Measurable, Achievable, Realistic, and Time-Bound |
| DBS | Disclosure & Barring Service |
| ADY | Anghenion Dysgu Ychwanegol |
| BAS | Bwrdd Ansawdd Sirol |
| ALl | Awdurdod Lleol |
| CDU | Cynllun Datblygu Unigol |
| CSGA | Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg |
| WEMWBS | Warwick-Edinburgh Mental Wellbeing Scale |
| VAWDASV | Violence Against Women, Domestic Abuse and Sexual Violence |

*"Hyrwyddo cyflawniad a lles plant a phobl ifanc Gwynedd drwy sicrhau llywodraethiant, arweinyddiaeth a rheolaeth effeithiol ein hysgolion"*

# Mesuryddion Addysg

Iaith: All

Cyfnod Amser: 01 Mawrth 2026

| Categori | Mesur | Gwerth |
|---|---|---|
| Arlwyo | % o ddysgwyr ysgolion cynradd Gwynedd sy'n manteisio ar y cynnig prydau ysgol am ddim | 82 |
| Arlwyo | % o ddysgwyr ysgolion Gwynedd sydd yn fodlon gyda safon y cinio ysgol | 65 |
| Arlwyo | % o ysgolion cymwys (ysgolion gyda 16% neu fwy o PYD) sy'n cymryd rhan yn y rhaglen Bwyd a Hwyl | 27 |
| Arlwyo | % yr adroddiadau Archwiliad Hylendid a Safonau Bwyd Ysgolion sydd yn derbyn sgôr o 5 | 89 |
| Cefnogaeth Fusnes | % o anfonebau sy'n cael ei brosesu o fewn 7 diwrnod (5 diwrnod gwaith) o'u derbyn | 98 |
| Cefnogaeth Fusnes | % yr ysgolion (allan o'r rhai a holwyd) oedd yn fodlon gyda chefnogaeth y Ganolfan Fusnes | 100 |
| Cludiant Addysg | Nifer y cwynion am gludiant | 9 |
| Diogelu | % gwahaniaeth rhwng presenoldeb PMG a dim PMG | 0.08 |
| Diogelu | % o Gynlluniau Addysg Personol a graffwyd sydd yn cynnwys targedau addysgol addas | 88 |
| Diogelu | % o staff yr Adran Addysg sydd efo gwiriad DBS cyfredol (allan o'r staff sydd ei angen) | 100 |
| Diogelu | % o staff ysgolion sydd efo gwiriad DBS cyfredol | 99.31 |
| Diogelu | % o ysgolion sydd wedi derbyn ymweliad monitro ac yn cydymffurfio yn dda neu'n well gyda'r gofynion Diogelu | 100 |
| Diogelu | Nifer o ddyddiau mae PMG wedi bod allan o addysg mewn blwyddyn addysgol | 45 |

*"Hyrwyddo cyflawniad a lles plant a phobl ifanc Gwynedd drwy sicrhau llywodraethiant, arweinyddiaeth a rheolaeth effeithiol ein hysgolion"*

# Mesuryddion Addysg

Iaith: Cymraeg

Cyfnod Amser: 01 Mawrth 2026

| Maes | Mesurydd | | Gwerth |
|---|---|---|---|
| Llywodraethwyr | % o lywodraethwyr (sydd wedi ymateb i'r broses werthuso hyfforddiant) sy'n teimlo'n fwy hyderus wedi hyfforddiant | 1 | 86 |
| Llywodraethwyr | % o Gadeiryddion newydd Cyrff Llywodraethol sy'n mynychu hyfforddiant i Gadeiryddion (Cadeiryddion sy'n newydd i'r rol yn ystod y flwyddyn academaidd gyfredol) | 1 | 95 |
| Llywodraethwyr | % o lywodraethwyr sy'n mynychu hyfforddiant anwytho | 2 | 77 |
| Moderneiddio | % o brosiectau cyfalaf sydd yn symud ymlaen yn unol â'r disgwyl | 1 | 90 |
| Moderneiddio | % o brosiectau di-gyfalaf sy'n symud ymlaen yn unol a'r disgwyl | 1 | 100 |
| Mynediad Ysgolion | Nifer o apeliadau mynediad i ysgolion a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod | 1 | 0 |
| Mynediad Ysgolion | Nifer y ceisiadau trosglwyddo Ysgol a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod | 2 | 230 |
| Mynediad Ysgolion | % y ceisiadau mynediad i flwyddyn derbyn ble y cynigir lle ar sail y dewis cyntaf | 1 | 99.80 |
| Mynediad Ysgolion | % y ceisiadau mynediad i flwyddyn 7 ble y cynigir lle ar sail y dewis cyntaf | 1 | 100 |
| Safonau Ysgol | Canran o ysgolion sydd wedi derbyn ymweliad cefnogi yn ystod y tymor | 1 | 98 |
| Safonau Ysgol | Canran o ysgolion sydd heb bennaeth parhaol | 3 | 13 |
| Safonau Ysgol | Nifer o ysgolion sydd mewn categori statudol Estyn | 1 | 5 |
| Uned Ddata | % o 'gwsmeriaid' sy'n adrodd bod y data a dderbyniwyd o ansawdd uchel a bod y wybodaeth/data a dderbyniwyd wedi arwain at benderfyniadau | | 80 |

# Mesuryddion ADY

Iaith: Cymraeg

Cyfnod Amser: 01 Mawrth 2026

**ABC**
% o ddefnyddwyr sydd yn fodlon gyda chefnogaeth y gwasanaeth
100

**ABC**
% o blant a phobl ifanc sydd yn derbyn mewnbwn ac yn gwneud cynnydd
83.50

**ADY Ansawdd a Gweinyddol**
Nifer o achosion a aeth ymlaen i lefel tribiwnlys
4

**ADY Ansawdd a Gweinyddol**
% o ysgolion sydd angen cymorth tu draw i'r arferol – sef ymweliadau o leiaf bob hanner tymor (neu y nifer ysgolion sydd yn cael eu uwchraddio i'r system BAS oherwydd ansawdd ADY/Ch)
1.90

**ADY Blynyddoedd Cynnar**
% o ddefnyddwyr sydd yn fodlon gyda chefnogaeth y gwasanaeth
100

**ADY Blynyddoedd Cynnar**
% o blant a phobl ifanc sydd yn derbyn mewnbwn uniongyrchol ac yn gwneud cynnydd
91

**ADY Blynyddoedd Cynnar**
% yr achosion sy'n cyd fynd a'r amserlen statudol
100

**ADY Penodol**
% o ddefnyddwyr sydd yn fodlon gyda chefnogaeth y gwasanaeth
97

**ADY Penodol**
Nifer o blant sydd angen mewnbwn uniongyrchol gan y gwasanaeth
71

**Corfforol Meddygol a Synhwyraidd**
% o ddefnyddwyr sydd yn fodlon gyda chefnogaeth y gwasanaeth
98

**Corfforol Meddygol a Synhwyraidd**
% o blant a phobl ifanc sydd yn derbyn mewnbwn uniongyrchol ac yn gwneud cynnydd
97

**Cyfathrebu a Rhyngweithio**
% o ddefnyddwyr sydd yn fodlon gyda chefnogaeth y gwasanaeth
100

**Cyfathrebu a Rhyngweithio**
% o blant a phobl ifanc sydd yn derbyn mewnbwn ac yn gwneud cynnydd
83

**Gweinyddol**
% o benderfyniadau Panel a Fforwm sydd yn cael eu cofnodi yn y CDU o fewn 2 wythnos
100

**Seicoleg**
% o blant a phobl ifanc sydd yn gwneud cynnydd yn dilyn mewnbwn gan y gwasanaeth seicoleg
62

**Seicoleg**
% o'r ELSAs wedi cymhwyso sydd yn mynychu goruchwyliaeth bob hanner tymor
64

*"Hyrwyddo cyflawniad a lles plant a phobl ifanc Gwynedd drwy sicrhau llywodraethiant, arweinyddiaeth a rheolaeth effeithiol ein hysgolion"*

# Mesuryddion Cynhwysiad

Iaith: Cymraeg

Cyfnod Amser: 01 Mawrth 2026

| Maes | Mesur | | Gwerth |
|---|---|---|---|
| Addysg Ddewisol Gartref | Nifer o ddysgwyr Addysg Ddewisol Gartref | 3 | 284 |
| Addysg Ddewisol Gartref | % o ddisgyblion yn derbyn addysg addas i'w gallu | 2 | 75 |
| Addysg Ddewisol Gartref | % o deuluoedd yn derbyn ymweliadau cartref | 2 | 42.95 |
| Cwnsela | % o ddefnyddwyr sydd yn fodlon gyda chefnogaeth y gwasanaeth | 1 | 85 |
| Cwnsela | Cymedr nifer y diwrnodau y mae angen disgwyl am wasanaeth | 2 | 44 |
| Cynhwysiad | % y disgyblion sydd yn gwneud cynnydd yn dilyn mewnbwn y tîm | 2 | 0 |
| Cynhwysiad | Nifer o waharddiadau parhaol Cynradd | 1 | 0 |
| Cynhwysiad | Nifer o waharddiadau parhaol Uwchradd | 3 | 10 |
| Cynhwysiad | Nifer o ddisgyblion sydd ar agor i'r tîm yn profi gostyngiad mewn gwaharddiadau penodol a pharhaol | 2 | 0 |
| Lles | % presenoldeb disgyblion Cynradd | 2 | 92.23 |
| Lles | % presenoldeb disgyblion Uwchradd | 2 | 89.83 |
| Lles | % y disgyblion (sydd ar agor i'r Gwasanaeth Lles) sydd â rhieni wedi derbyn erlyniadau o dan 444 (1) | 1 | 1.90 |
| Lles | % y disgyblion sydd ar agor i'r Gwasanaeth Lles yn adrodd ar welliant mewn presenoldeb | 2 | 49 |

*"Hyrwyddo cyflawniad a lles plant a phobl ifanc Gwynedd drwy sicrhau llywodraethiant, arweinyddiaeth a rheolaeth effeithiol ein hysgolion"*

# Mesuryddion Cynhwysiad

Iaith

Cymraeg

Cyfnod Amser

01 Mawrth 2026

| Saesneg fel Iaith Ychwanegol | Saesneg fel Iaith Ychwanegol | Swyddogion Ymgysylltu Teuluoedd | Swyddogion Ymgysylltu Teuluoedd |
|---|---|---|---|
| % o blant a phobl ifanc sydd yn derbyn mewnbwn uniongyrchol ac yn gwneud cynnydd | % presenoldeb y disgyblion sydd yn derbyn cefnogaeth | % o ddisgyblion sydd wedi derbyn cefnogaeth yn adrodd ar gynnydd llesiant | % o ddisgyblion yn mynychu ein gweithgareddau cymunedol |
| 1 | 1 | 2 | 2 |
| 94 | 83 | 63 | 54.35 |

# Mesuryddion Y Gymraeg

Iaith: Cymraeg

Cyfnod Amser: 01 Mawrth 2026

| Canolfannau Iaith | Canolfannau Iaith | Canolfannau Iaith | Canolfannau Iaith |
|---|---|---|---|
| % o blant a phobl ifanc sydd yn cyrraedd Lefel 1 neu uwch ar ddiwedd eu cyfnod mewn Canolfan Iaith (Cynradd) | % o blant a phobl ifanc sydd yn cyrraedd Lefel 2 ar ddiwedd eu cyfnod mewn Canolfan Iaith (Cynradd) | % o blant a phobl ifanc sydd yn cyrraedd Lefel 1 neu uwch ar ddiwedd eu cyfnod mewn Canolfan Iaith (Uwchradd) | % o blant a phobl ifanc sydd yn cyrraedd Lefel 2 ar ddiwedd eu cyfnod mewn Canolfan Iaith (Uwchradd) |
| 100 | 67 | 100 | 36 |

| Y Gymraeg | Y Gymraeg | Y Gymraeg | Y Gymraeg | Y Gymraeg |
|---|---|---|---|---|
| % o ddysgwyr cynradd ysgol gyfan sy'n ymgymryd ag o leiaf 70% o'u gweithgareddau ysgol (cwricwlaidd ac allgyrsiol) yn Gymraeg - Gwynedd | % o ddysgwyr uwchradd ysgol gyfan sy'n ymgymryd ag o leiaf 70% o'u gweithgareddau ysgol (cwricwlaidd ac allgyrsiol) yn Gymraeg - Gwynedd | % o bynciau Blwyddyn 10 ac 11 sy'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg | % o athrawon cynradd sy'n hyderus i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg | % o athrawon uwchradd sy'n hyderus i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg |
| 97.00 | 79.24 | 73.58 | 97.90 | 86.20 |

*"Hyrwyddo cyflawniad a lles plant a phobl ifanc Gwynedd drwy sicrhau llywodraethiant, arweinyddiaeth a rheolaeth effeithiol ein hysgolion"*

# Mesuryddion Gwasanaeth Ieuenctid

Iaith: Cymraeg

Cyfnod Amser: 01 Mawrth 2026

| Gwasanaeth | Mesur | Gwerth |
|---|---|---|
| Gwasanaeth Ieuenctid | % o'r bobl ifanc a fyddai'n dymuno parhau i fynychu sesiynau llesiant yn y dyfodol. | 95.00 |
| Gwasanaeth Ieuenctid | % o'r bobl ifanc ble mae eu Lles wedi gwella ar ôl mynychu'r gwasanaeth | 97.00 |
| Gwasanaeth Ieuenctid | % o'r bobl ifanc sydd wedi cyflawni amcanion eu cynlluniau personol | 76.00 |
| Gwasanaeth Ieuenctid | % o'r bobl ifanc sydd wedi gwella eu llesiant dros gyfnod o 3 mis (tim 16-25) | 71.00 |
| Gwasanaeth Ieuenctid | % o'r bobl ifanc sydd wedi mwynhau'r gwasanaeth a ddarperir | 95.00 |
| Gwasanaeth Ieuenctid | Llwythi Achos Gwasanaeth Cymorth Ieuenctid 16-25 oed | 96 |
| Gwasanaeth Ieuenctid | Nifer o achrediadau mae'r pobl ifanc wedi eu cwblhau (mesur pob 3 mis) | 489 |
| Gwasanaeth Ieuenctid | Nifer o gyfranogiadau pobl ifanc sydd wedi defnyddio Gwasanaeth Cymunedol Ieuenctid | 5,951 |
| Gwasanaeth Ieuenctid | Nifer o gyfranogiadau pobl ifanc sydd wedi defnyddio'r Gwasanaeth Cymorth Ieuenctid 11-19 oed | 3,114 |


*"Hyrwyddo cyflawniad a lles plant a phobl ifanc Gwynedd drwy sicrhau llywodraethiant, arweinyddiaeth a rheolaeth effeithiol ein hysgolion"*

# Arlwyo

**Pwrpas:** Darparu bwyd maethlon ac iachus i ddisgyblion ysgolion Gwynedd

Iaith
Multiple sele...

**Mesurydd:** % o ddysgwyr ysgolion cynradd Gwynedd sy'n manteisio ar y cynnig prydau ysgol am ddim




82% o ddysgwyr wedi manteisio ar y cynnig prydau ysgol am ddim ym mis Mawrth 2026. Mae'r ffigwr hwn yn cynnwys dysgwyr sy'n gymwys drwy'r cynllun Prydau Ysgol am ddim i holl blant Ysgolion Cynradd (Universal Primary Free School Meals (UPFSM)), yn ogystal â'r rhai sy'n gymwys drwy fudd-daliadau (Free School Meal (FSM)). Dylid nodi hefyd fod lefelau presenoldeb yn gallu dylanwadu ar y ffigyrau hyn.

O ran hawlio grant cinio am ddim yn y sector cynradd, mae 73% o ddysgwyr wedi manteisio ar y cynnig drwy'r cynllun yma (UPFSM). Mae'r data hwn yn seiliedig ar wythnos sampl ym mis Mawrth. Wrth gymharu ag awdurdodau lleol cyfagos, mae'r ganran o ddysgwyr sy'n manteisio ar y cynnig yn dilyn patrwm tebyg, ond mae Cyngor Gwynedd gyda canran uwch o ddysgwyr yn manteisio ar y cynllun nag ambell awdurdod yng Ngogledd Cymru.

Yn ystod yr wythnosau diwethaf, mae bwydlenni themâu wedi'u cynllunio, megis Diwrnod Santes Dwynwen, Dydd Gŵyl Dewi, Pasg a'r Flwyddyn Newydd Tsieineaidd, er mwyn ceisio annog mwy o ddysgwyr i fanteisio ar y cynnig o brydau ysgol. Mae'r adborth cychwynnol gan y Penaethiaid wedi bod yn gadarnhaol.

Misol | Rhian Eifiona Hughes (ADDYSG)


# Arlwyo

**Pwrpas:** Darparu bwyd maethlon ac iachus i ddisgyblion ysgolion Gwynedd

Iaith

Multiple sele...

**Mesurydd:** % o blant a phobl ifanc sydd yn fodlon gyda safon y cinio ysgol




11 o ysgolion wnaeth gwblhau'r holiadur, gyda chyfanswm o 667 o ddysgwyr oed cynradd.
O'r dysgwyr sydd wedi cwblhau'r holiadur roedd 90% yn fodlon neu'n niwtral:
65% yn fodlon (gwyneb hapus)
25% ddim yn fodlon na anfodlon (gwyneb niwtral)
10% yn anfodlon (gwyneb trist), gan nodi nad oeddent yn hoffi'r bwyd.

Nid yw nifer yr ysgolion sydd wedi cwblhau'r holiadur boddhad cwsmer wedi bod yn uchel ar gyfer mis Mawrth, felly nid ydym yn cael trosolwg manwl ar draws ein hysgolion. Mae sylwadau cyffredinol megis 'bwyd neis' a 'bwyd lyfli' yn ymddangos yn gyson ar draws yr ymatebion. O ran dewisiadau, mae rhai prydau'n fwy poblogaidd nai gilydd megis sglodion a phitsa a chinio rhost mewn rhai ardaloedd. Ar y cyfan, mae barn y dysgwyr sydd wedi nodi wyneb trist yn deillio o ddewisiadau personol o ran blas a ffafriaeth, yn hytrach na phryderon ynghylch ansawdd y bwyd.

Yn ychwanegol i hyn, bu i'r Swyddog Bwyd a Hwyl a Hybu Cinio am Ddim ymweld â 5 ysgol mis Rhagfyr sef Ysgol yr Hendre, Ysgol Glancegin, Ysgol Cymerau, Ysgol Llanllechid ac Ysgol y Traeth. Ymatebion tebyg ddaeth i'r amlwg yn dilyn yr ymweliadau, gyda dewisiadau personol yn dylanwadu os ydynt yn cymryd cinio ysgol a'i pheidio. Daeth i'r amlwg bod mwy o ddysgwyr hŷn yr ysgolion yn dewis bwyta pecyn bwyd. Roedd y prif resymau'n cynnwys dewis bwydydd cyfarwydd o'r cartref a dylanwad ffrindiau. Mae'n ymddangos bod rhai dysgwyr sydd yn cael bocs bwyd drwy'r wythnos yn cymryd cinio ysgol ar ddyddiau Gwener, gan bod sglodion ar y fwydlen.

Roedd cynnydd yn nifer oedd yn cymryd cinio yn rhai o'r ysgolion mis Mawrth o gymharu â mis Tachwedd.

Misol | Rhian Eifiona Hughes (ADDYSG)

*"Hyrwyddo cyflawniad a lles plant a phobl ifanc Gwynedd drwy sicrhau llywodraethiant, arweinyddiaeth a rheolaeth effeithiol ein hysgolion"*


# Arlwyo

**Pwrpas:** Darparu bwyd maethlon ac iachus i ddisgyblion ysgolion Gwynedd

Iaith

Multiple sele...

**Mesurydd:** % o ysgolion cymwys (ysgolion gyda 16% neu fwy o PYD) sy'n cymryd rhan yn y rhaglen Bwyd a Hwyl




4 ysgol gymerodd rhan yn y Rhaglen Bwyd a Hwyl Haf 2024. 8 ysgol wedi manteisio ar y rhaglen llynedd yn ystod Haf 2025 (30 ysgol yn gymwys, data PLASC Ionawr 2025).
Er bod Rhaglen Bwyd a Hwyl yn raglen wych sydd wedi'i hariannu'n llawn gan Llywodraeth Cymru ac yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i'n dysgwyr dros yr haf, mae'n her cael ysgolion i ymrwymo i weithio 12 diwrnod yn ystod gwyliau'r haf. Nid yw gweithio yn ystod y gwyliau yn rhan o gytundebau gwaith llawer o staff yr ysgolion, na staff Gwasanaeth Arlwyo a Glanhau Addysg, felly rydym yn dibynnu ar ewyllys da y staff i weithio. Er mwyn cefnogi hyn, rydym wedi cydweithio gyda 'Swyddogion Ymgysylltu â'r Gymuned a Theuluoedd' ac asiantaethau allanol i helpu mewn ambell ysgol, er nid yw'r gefnogaeth yma ar gael ymhob ardal.
Mae rhai ysgolion wedi mynegi bod hyfforddiant Sgiliau Maeth ar gyfer Bywyd (Nutrition Skills for Life L2) sydd yn hanfodol i gynnal y rhaglen yn rhwystr, gan fod angen rhyddhau staff i fynd ar y cwrs (6 sesiwn). Bellach mae modd cwblhau'r cwrs ar-lein, sydd yn gwneud pethau'n haws i ysgolion gymryd rhan, ond mae ambell ysgol yn parhau i weld hyn yn rwystr gan bod y sesiwn yn ystod oriau ysgol.
Ar gyfer haf 2026, rydym wedi cofrestru 8 ysgol i fod yn rhan o'r rhaglen. Bu trafodaethau gyda mwy o ysgolion yn wreiddiol, ond yn anffodus nid oedd modd i'r Penaethiaid ymrwymo eleni.
Mae Bwrdd Prosiect wedi cael ei drefnu gyda'r ysgolion a phartneriaethau allweddol dechrau mis Mawrth i fynd drwy amodau'r cynllun. Y camau nesaf yw gwirio bod gan bob ysgol ddigon o staff i gefnogi dros yr haf a sicrhau bod arweinydd y rhaglen yn mynychu'r hyfforddiant bwyd a maeth gyda Betsi Cadwaladr mis Ebrill. Yn ystod mis Ebrill a Mai bydd angen trefnu cyfarfodydd wyneb i wyneb yn yr ysgolion i lunio amserlen gweithgareddau a chefnogi'r ysgolion yn ôl yr angen.

Misol | Rhian Eifiona Hughes (ADDYSG)


# Arlwyo

**Pwrpas:** Darparu bwyd maethlon ac iachus i ddisgyblion ysgolion Gwynedd

Iaith

Multiple sele...

**Mesurydd:** % yr adroddiadau Archwiliad Hylendid a Safonau Bwyd Ysgolion sydd yn derbyn sgôr o 5




8 allan o 9 ysgol wedi cael sgôr o 4

Mae holl ysgolion Gwynedd ar hyn o bryd gyda sgôr o 4 neu 5

Misol | Rhian Eifiona Hughes (ADDYSG)

*"Hyrwyddo cyflawniad a lles plant a phobl ifanc Gwynedd drwy sicrhau llywodraethiant, arweinyddiaeth a rheolaeth effeithiol ein hysgolion"*


# Cefnogaeth Fusnes

**Pwrpas:** Darparu cefnogaeth busnes effeithiol i ysgolion cynradd Gwynedd

Iaith

Multiple sele...

**Mesurydd:** % o anfonebau sy'n cael ei brosesu o fewn 7 diwrnod (5 diwrnod gwaith) o'u derbyn




Bu i'r Ganolfan Fusnes Addysg brosesu 1,954 o anfonebau yn ystod y cyfnod 01/01/26 hyd at 20/03/26. Fe broseswyd 98% o'r anfonebau o fewn 7 diwrnod (sef 5 diwrnod gwaith) o'u derbyn sydd yn ganran uchel.
Roedd rhesymau dilys dros y 2% nad oedd wedi'u prosesu o fewn y saith diwrnod.

Misol | Kathryn Aveline Roberts (ADDYSG)


*"Hyrwyddo cyflawniad a lles plant a phobl ifanc Gwynedd drwy sicrhau llywodraethiant, arweinyddiaeth a rheolaeth effeithiol ein hysgolion"*

# Cefnogaeth Fusnes

**Pwrpas:** Darparu cefnogaeth busnes effeithiol i ysgolion cynradd Gwynedd

Iaith
Multiple sele...

**Mesurydd:** % yr ysgolion (allan o'r rhai a holwyd) oedd yn fodlon gyda chefnogaeth y Ganolfan Fusnes




Anfonwyd holiaduron at benaethiaid yr ysgolion y mae'r staff yn ymweld â hwy. Yn ogystal, cynhaliwyd cyfarfodydd gyda 30% o'r penaethiaid i gasglu eu barn am y gwasanaeth, gyda'r nod o wella'r ddarpariaeth yn y dyfodol.
Roedd yr ymatebion a dderbyniwyd yn addawol iawn gyda 5 ysgol wedi ymateb hyd yma i'r holiaduron yn nodi eu bod yn fodlon iawn gyda'r gwasanaeth. Byddwn yn dilyn i fyny gyda'r holiaduron sydd heb eu dychwelyd ar ôl gwyliau'r Pasg.
Dyma rhai o'r sylwadau a nodwyd ar yr holiaduron:

- Mae'r cymorth yma wedi lleihau baich gweinyddol arnaf i fel pennaeth sydd hefyd yn athrawes 4 diwrnod. Gallwn argymell y gwasanaeth yma i unrhyw un.
- Mae'r gwasanaeth yn un gwerthfawr i ni fel ysgol fach nad yw'n gallu fforddio swyddog gweinyddol. Mae'n lleihau baich y Pennaeth yn sylweddol, ac mae pob ymweliad yn dod â rhyddhad mawr gan fod y gwaith gweinyddol a'r rhestr dasgau wedi'u cwblhau.
- Mae swyddog busnes yn gwybod pa waith sydd angen ei wneud yn yr ysgol ac mae hyn yn gwneud fy ngwaith yn llawer haws, ac mae ei chysylltiadau o fewn gwahanol adrannau'r cyngor yn hynod werthfawr.

Yn ystod y cyfarfodydd, mynegodd y penaethiaid na allant wneud heb y gwasanaeth, gan ei fod yn lleihau eu baich gwaith ac yn eu galluogi i ganolbwyntio ar eu dyletswyddau statudol.
Mae'r ysgolion oll am barhau i brynu'r gwasanaeth eto yn flwyddyn ariannol 2026/27 sydd yn newyddion da iawn ac yn ychwanegol i hynny mae dwy ysgol arall wedi penderfynu prynu mewn i'r gwasanaeth yn 2026/27.

Misol — Kathryn Aveline Roberts (ADDYSG)


# Cludiant Addysg

**Pwrpas:** Darparu cludiant addas i fynd a disgyblion i'r ysgol neu goleg

Iaith

Multiple sele...

**Mesurydd:** Nifer y cwynion am gludiant




Mae'n amlwg fod y dysgwyr oll wedi setlo ac arfer gyda'r ddarpariaeth bellach ac adlewyrchir hynny yn nifer y cwynion a dderbyniwyd.
Derbyniwyd 1 gwyn am ddifrod i lochesi bws mewn pentref cyfagos a chyd-weithredwyd gyda'r heddlu lleol, yr ysgol a'r uned gludiant i adnabod y difrodwyr a chanfod datrysiad.
Derbyniwyd 3 cwyn am wrthod dysgwr rhag teithio ar fws ysgol ond nid oedd y dysgwr yn gymwys am fod eu hysgol newydd o'u dewis yn all-ddalgylch, er hyn adolygir cefndir y dysgwyr yma rhag ofn eu bod yn cwrdd a meini prawf ADY neu eithriadau arbennig.
Derbyniwyd 2 cwyn yn ymwneud ag ymddygiad rhai dysgwyr mewn tacsis a bu cyd-weithio rhwng yr ysgolion, swyddogion y cyngor a'r darparwyr a chanfuwyd ddatrysiadau cadarnhaol trwy addasu'r ddarpariaeth presennol.
Derbyniwyd 1 gwyn yn ymwneud ag addasrwydd cerbyd arbennig a chyd-weithiwyd eto â sawl swyddog i ganfod datrysiad. Mewn partneriaeth â'r gweithredwr tacsi, sicrhawyd fod y cerbyd newydd yn addas ac yn diwallu anghenion y dysgwr dan sylw.
Derbyniwyd 1 cwyn a oedd yn mynegi pryder am ddysgwyr sydd yn teithio heb docyn dilys ar gludiant addysg a ddarperir gan drenau Trafnidiaeth i Gymru. Aethpwyd allan i fonitro, cyfarfod â staff ac adolygwyd y darpariaethau cyfan, a gwnaethpwyd trefniadau i archebu tocynnau trên ar gyfer y dysgwyr dan sylw.
Yn olaf, derbyniwyd 1 cwyn gan weithredwr bws ysgol am ymddygiad annerbyniol grŵp bychain o ddysgwyr ar lwybr mewn ardal cyfagos. Bu cyd-weithio addas â'r ysgol dan sylw i ganfod datrysiad tymor byr yn gyntaf i'r digwyddiad dan sylw, ac mae trafodaethau ar waith ar ganfod datrysiad tymor hir i osgoi unrhyw ddigwyddiad tebyg i'r dyfodol.

Misol | Robert John Jones (ADDYSG)


# Diogelu

**Pwrpas:** Diogelu lles plant a phobl ifanc Gwynedd

Iaith

Multiple sele...

**Mesurydd:** % gwahaniaeth rhwng presenoldeb PMG a dim PMG




Mae presenoldeb Plant Mewn Gofal (PMG) yn sefyll ar 91.48% (cynnydd o 0.24% ers y cyfnod adrodd diwethaf), sy'n gyson â chyfradd presenoldeb gyffredinol ysgolion Gwynedd (91.56%), gyda gwahaniaeth o ddim ond 0.08%.

Yn y sector cynradd, mae presenoldeb PMG yn 94.88% (cynnydd o 1.44% ers y cyfnod adrodd diwethaf) yn gadarnhaol o gymharu â chyfradd cynradd Gwynedd (93.15%).

Yn yr uwchradd, mae'r sefyllfa'n adlewyrchu'r heriau ychwanegol sy'n wynebu rhai disgyblion mewn gofal, gyda gwahaniaeth o 2.02% rhwng presenoldeb PMG (87.69%) a chyfradd presenoldeb disgyblion uwchradd Gwynedd (89.71%)


Misol | Llion Williams (ADDYSG)

# Diogelu

**Pwrpas:** Diogelu lles plant a phobl ifanc Gwynedd

Iaith
Multiple sele...

**Mesurydd:** % o Gynlluniau Addysg Personol a graffwyd sydd yn cynnwys targedau addysgol addas




Yn dilyn awdit yn gynharach yn y flwyddyn addysgol o bob Cynllun Addysg Personol (CAP) ar gyfer Plant Mewn Gofal mewn ysgolion Gwynedd, mae gwaith parhaus wedi dechrau i gefnogi ysgolion i wella'r cynlluniau hynny lle canfuwyd bod angen mwy o wybodaeth neu welliannau penodol.

Canfu'r awdit fod gan bob CAP dargedau, ond nodwyd bod rhai o'r cynlluniau angen:

- wella ansawdd y targedau, yn enwedig drwy sicrhau eu bod yn fwy penodol ac yn dilyn egwyddorion SMART
- cynnwys llais y disgybl yn fwy pendant
- ychwanegu targedau cliriach sy'n ymwneud â chyrhaeddiad addysgol a lles emosiynol/cymdeithasol

Mae gwaith i wella'r cynlluniau hyn eisoes ar y gweill. Mae'r Swyddog Cefnogi Plant Mewn Gofal Gwynedd yn darparu:

- cyngor uniongyrchol i ysgolion
- templedi a chanllawiau gwell
- cyfarfodydd cefnogol un-i-un lle bo angen

Mae'r gwaith diweddaru a gwella'n cael ei wneud fel rhan o'r adolygiadau rheolaidd, ac mae ysgolion wedi dechrau cryfhau eu cynlluniau ar sail canfyddiadau'r awdit.

Misol | Llion Williams (ADDYSG)


*"Hyrwyddo cyflawniad a lles plant a phobl ifanc Gwynedd drwy sicrhau llywodraethiant, arweinyddiaeth a rheolaeth effeithiol ein hysgolion"*

# Diogelu

**Pwrpas:** Diogelu lles plant a phobl ifanc Gwynedd

Iaith
Multiple sele...

**Mesurydd:** % o staff yr Adran Addysg sydd efo gwiriad DBS cyfredol (allan o'r staff sydd ei angen)




Mae pob aelod o'r adran (heb gyfri staff ysgolion a staff cefnogol sy'n gweithio mewn ysgolion) gyda gwiriad DBS cyfredol.

Misol | Llion Williams (ADDYSG)


*"Hyrwyddo cyflawniad a lles plant a phobl ifanc Gwynedd drwy sicrhau llywodraethiant, arweinyddiaeth a rheolaeth effeithiol ein hysgolion"*

# Diogelu

**Pwrpas:** Diogelu lles plant a phobl ifanc Gwynedd

Iaith
Multiple sele...

**Mesurydd:** % o staff ysgolion sydd efo gwiriad DBS cyfredol




Mae adroddiadau DBS yn cael eu monitro'n fisol fel rhan o drefniadau cydymffurfiaeth yr Adran, yn ogystal â'r rhybuddion awtomatig a gynhyrchir drwy'r system hunanwasanaeth. Ar gyfer Chwefror 2026, mae lefel cydymffurfiaeth DBS yr Adran yn sefyll ar 99.31%.

Mae gwaith yn parhau i sicrhau nad yw staff achlysurol yn cael eu cynnwys yn y dadansoddiad, er mwyn cynnal cywirdeb data. Nid oes unrhyw aelod o staff yn cychwyn gweithio mewn ysgol heb wiriad DBS dilys.

Ar hyn o bryd, mae 20 o unigolion ar y rhestr "heb ddiweddaru DBS", wedi'u dosbarthu fel a ganlyn:

• 5 unigolyn – i ffwrdd oherwydd salwch tymor hir neu absenoldeb arall, gan gynnwys 2 athro a 3 chymhorthydd cefnogol.

• 10 unigolyn – yn disgwyl i reolwr wirio'r cais, gan gynnwys 1 athro, 1 cymhorthydd ymddygiad, a gweddill yn staff achlysurol.

• 2 unigolyn – angen cwblhau eu cais, sef 1 cymhorthydd a 1 athro (y ddau mewn rolau llanw/achlysurol).

• 3 unigolyn – yn disgwyl canlyniad DBS, gan gynnwys 1 athro, 1 cymhorthydd ac 1 aelod o staff arlwyo a glanhau. Mae gan y 3 yma DBS ond nid yw'r broses o ddiweddaru wedi ei chwblhau yn unol â pholisi 3 blynedd y cyngor eto. Mae'r lleoliadau yn cynnal asesiadau risg i sicrhau bod yr unigolion yma yn gallu parhau i gyflawni eu dyletswyddau hyd nes bod y broses diweddaru gwiriad DBS wedi ei gwblhau.

Mae'r holl achosion yn cael eu monitro'n rheolaidd, a chynhelir dilyniant gyda rheolwyr llinell i sicrhau symudiad amserol a chydymffurfiaeth â gofynion statudol ac arfer da.

Misol | Llion Williams (ADDYSG)


*"Hyrwyddo cyflawniad a lles plant a phobl ifanc Gwynedd drwy sicrhau llywodraethiant, arweinyddiaeth a rheolaeth effeithiol ein hysgolion"*

# Diogelu

**Pwrpas:** Diogelu lles plant a phobl ifanc Gwynedd

Iaith
Multiple sele...

**Mesurydd:** % o ysgolion sydd wedi derbyn ymweliad monitro ac yn cydymffurfio yn dda neu'n well gyda'r gofynion Diogelu




Yn ystod y cylch ymweliadau rhwng Ionawr a Mawrth 2026, canfuwyd bod pob ysgol yn cydymffurfio'n dda neu'n well â gofynion diogelu statudol a lleol. Er gwaethaf y lefel gyffredinol o gydymffurfiaeth, nodwyd cyfres o gamau gweithredu sylfaenol mewn tair ysgol, gyda'r bwriad o gryfhau trefniadau diogelu yn ymarferol.

Cyfeiriodd y camau gweithredu hyn at:
• Gynyddu gweledэdd negeseuon diogelu, drwy ychwanegu nifer y posteri a chyfarwyddiadau diogelu o amgylch yr ysgol.
• Sicrhau prosesau ymwelydd cyson, gan gynnwys darparu lanyard ymwelydd i bob unigolyn sy'n arwyddo i mewn.
• Adnewyddu hyfforddiant Grŵp C (Lefel Person Dynodedig) i rai aelodau o staff cyn diwedd y tymor. Mae hyn er mwyn cadw o fewn amserlen Gwynedd o adnewyddu bob dwy flynedd—yn uwch na'r gofyniad cenedlaethol o bob tair blynedd—fel rhan o sicrhau safonau cadarn o gydymffurfiaeth.

Bydd y tair ysgol hyn yn derbyn ymweliadau cefnogol ychwanegol ar ôl y Pasg er mwyn monitro cynnydd a sicrhau bod yr holl argymhellion wedi'u gweithredu'n llawn.

Misol | Llion Williams (ADDYSG)


*"Hyrwyddo cyflawniad a lles plant a phobl ifanc Gwynedd drwy sicrhau llywodraethiant, arweinyddiaeth a rheolaeth effeithiol ein hysgolion"*

# Diogelu

**Pwrpas:** Diogelu lles plant a phobl ifanc Gwynedd

Iaith
Multiple sele...

**Mesurydd:** Nifer o ddyddiau mae PMG wedi bod allan o addysg mewn blwyddyn addysgol




Ar hyn o bryd mae dau ddisgybl o fewn y sector Plant Mewn Gofal y tu allan i addysg brif lif, ac mae gwaith traws asiantaeth yn parhau i sicrhau bod darpariaethau addas ac interim ar waith tra'n ceisio sefydlogi eu sefyllfa addysgol.

Disgybl 1

Mae'r data diweddaraf yn ymwneud â disgybl nad oedd wedi mynychu'r ysgol am gyfnod estynedig cyn cyflwyno cais ffurfiol i newid ysgol. Mae'r ysgol newydd bellach wedi derbyn y trosglwyddiad ac yn gweithio'n agos gyda'r Tîm Lles Ysgolion a'r Gweithiwr Cymdeithasol.

Er gwaethaf sawl cyfarfod sefydlu a drefnwyd gan yr ysgol, nid yw'r disgybl wedi mynychu hyd yma. O ganlyniad:

- Mae trefniadau newydd wedi'u gwneud i gynnal cyfarfod rhwng aelod o staff yr ysgol, Swyddog Diogelu a Llesiant, a'r disgybl mewn lleoliad yn y gymuned (oddi ar dir yr ysgol).
- Mae'r sefyllfa'n cael ei monitro'n barhaus, gyda thrafodaethau rheolaidd rhwng y Gweithiwr Cymdeithasol a'r Swyddog Adolygu Annibynnol i sicrhau bod cefnogaeth ar waith ac i asesu cynnydd.

Disgybl 2

Mae'r ail ddisgybl hefyd ar hyn o bryd y tu allan i addysg brif lif. Mae trafodaethau cyson yn digwydd rhwng:

- Gwasanaethau Cymdeithasol
- Cydlynydd Plant Mewn Gofal
- Tîm Cynhwysiad

Mae'r partneriaid hyn yn cydweithio i ddatblygu cynllun darpariaeth amgen dros dro ar gyfer y disgybl, nes bydd lleoliad addysgol sefydlog ar gael ac yn addas i'w anghenion.

Misol — Llion Williams (ADDYSG)


# Llywodraethwyr

**Pwrpas:** Cefnogi Cyrff Llywodraethu Ysgolion Gwynedd i fod yn effeithiol yn eu gwaith

Iaith

Multiple ...

**Mesurydd:** % o lywodraethwyr (sydd wedi ymateb i'r broses werthuso hyfforddiant) sy'n teimlo'n fwy hyderus wedi hyfforddiant




Mae'r ganran yma ar sail 21 ymateb gan fynychwyr sesiynau hyfforddiant Anwytho i Lywodraethwyr Newydd, Cadeiryddion Newydd, Gormodedd a Diogelu ar gyfer Cadeiryddion a Llywodraethwyr Dynodedig Amddiffyn Plant. Bu i gyfanswm o 82 o Lywodraethwyr fynychu'r sesiynau hyfforddiant yma. Mae yn bryderus mai dim ond chwarter y mynychwyr sydd yn llenwi'r ffurflen werthuso sy'n cael ei danfon wedi'r hyfforddiant. O'r 21 ymateb mae 18 (86%) wedi nodi eu bod wedi cynyddu yn eu hyder ynghylch y maes dan sylw yn dilyn yr hyfforddiant. O'r 3 (14%) nad oedd yn teimlo'n fwy hyderus roedd 2 ohonynt eisoes yn hyderus a'r trydydd, o fynychu'r hyfforddiant gormodedd yn cwestiynu addasrwydd yr hyfforddiant. Bydd ei sylwadau yn cael eu hystyried cyn darparu hyfforddiant gormodedd yn 2027. Bydd angen ystyried hefyd os oes dull amgen o gasglu'r wybodaeth yma.

Chwarterol | Buddug Mair Huws (ADDYSG)


*"Hyrwyddo cyflawniad a lles plant a phobl ifanc Gwynedd drwy sicrhau llywodraethiant, arweinyddiaeth a rheolaeth effeithiol ein hysgolion"*

# Llywodraethwyr

**Pwrpas:** Cefnogi Cyrff Llywodraethu Ysgolion Gwynedd i fod yn effeithiol yn eu gwaith

Iaith
Multiple ...

**Mesurydd:** % o Gadeiryddion newydd Cyrff Llywodraethol sy'n mynychu hyfforddiant i Gadeiryddion (Cadeiryddion sy'n newydd i'r rol yn ystod y flwyddyn academaidd gyfredol)




Gofynnwyd i Clercod pob Corff Llywodraethu unigol i lenwi arolwg oedd yn gofyn yn benodol am wybodaeth ynghylch hyfforddiant anwytho i Llywodraethwyr ynghyd â hyfforddiant Cadeiryddion. Erbyn hyn, bu inni dderbyn gwybodaeth ar gyfer 58 o Gyrff Llywodraethu allan o gyfanswm o 88 (66%) - ffigwr sy'n parhau yn siomedig. Mae'r wybodaeth a gyflwynir ar sail yr ymatebion rheiny yn unig. Gofynnwyd am enw Cadeirydd y Corff Llywodraethu, pryd etholwyd nhw'n gyntaf i'r rôl ac os oeddynt wedi mynychu'r hyfforddiant i Gadeiryddion newydd. O'r 58 Cadeirydd, roedd 95% (55) wedi mynychu'r hyfforddiant eisoes. O'r 5% (3) nad oedd wedi mynychu roedd 2 yn newydd i'r rôl, ac wedi eu ethol yn Gadeirydd ar y Corff Llywodraethu am y tro cyntaf y tymor diwethaf, roedd un ohonynt wedi archebu lle ar yr hyfforddiant i Gadeiryddion yn Mawrth 2026 ond wedi gorfod canslo ar y funud olaf. Roedd y Cadeirydd arall nad oedd wedi mynychu'r hyfforddiant i Gadeiryddion yn Gadeiryddion ers Medi 2024.
Mae cywain gwybodaeth am gyrff llywodraethol yn her yn bresennol gan ein bod yn ddibynnol ar weithrediad y clerc. Rydym wedi adnabod bod datblygu rôl y clerc yn gam gweithredu allweddol yn ein rhaglen waith ar gyfer 2026-27 gyda hyfforddiant i Glercod wedi ei drefnu ar gyfer Ebrill 2026.
Er mwyn symud ymlaen bydd angen:
Parhau i fynd ar ôl y wybodaeth ar gyfer y 30 Corff Llywodraethu sydd heb ymateb hyd yma er mwyn cael darlun llawnach o'r sefyllfa;
Targedu Cadeiryddion unigol sydd heb fynychu'r hyfforddiant a sicrhau eu bod yn cwblhau'r hyfforddiant ar-lein ar unwaith.
At Medi 2026 fe fydd angen ail-edrych ar y rhaglen hyfforddiant yn ei chyfanrwydd a sicrhau bod unrhyw Gadeirydd newydd yn gwneud yr hyfforddiant yn ystod Tymor yr Hydref.

Chwarterol Buddug Mair Huws (ADDYSG)


*"Hyrwyddo cyflawniad a lles plant a phobl ifanc Gwynedd drwy sicrhau llywodraethiant, arweinyddiaeth a rheolaeth effeithiol ein hysgolion"*

# Llywodraethwyr

**Pwrpas:** Cefnogi Cyrff Llywodraethu Ysgolion Gwynedd i fod yn effeithiol yn eu gwaith

Iaith
Multiple ...

**Mesurydd:** % o lywodraethwyr sy'n mynychu hyfforddiant anwytho




Gofynnwyd i Clercod pob Corff Llywodraethol unigol i lenwi arolwg oedd yn gofyn yn benodol am wybodaeth ynghylch hyfforddiant anwytho i Llywodraethwyr ynghyd â hyfforddiant Cadeiryddion. Bu inni gael gwybodaeth ar gyfer 58 o Gyrff Llywodraethol allan o gyfanswm o 88 (66%). Mae'r wybodaeth a gyflwynir ar sail yr ymatebion rheiny yn unig.
Gofynnwyd am nifer y Llywodraethwyr presennol sydd ar y Corff Llywodraethol, sawl un ohonynt oedd wedi mynychu hyfforddiant Anwytho i Lywodraethwyr ac o'r rheiny nad oedd wedi mynychu, sawl un ohonynt oedd yn lywodraethwyr ers llai na blwyddyn (er mwyn cydymffurfio â'r gofyn statudol). O ddiystyru'r Penaethiaid roedd 703 o Lywodraethwyr yn aelodau ar y 58 CLL. O'r rhain roedd 77% (544) wedi mynychu'r hyfforddiant. O'r 23% (159) oedd heb fynychu roedd 11% (74) ohonyn nhw'n newydd i'r rôl, gyda'r mwyafrif wedi cychwyn rhwng Medi a Rhagfyr 2025. Mae hyn yn gadael gweddill o 12% (85) sydd yn Lywodraethwyr ers mwy na blwyddyn ac heb gwblhau'r hyfforddiant anwytho. O edrych ar pwy yn union yw'r llywodraethwyr yma mae nifer ohonynt yn aelodau staff ysgolion (athrawon a staff ategol) ac wedi bod yn Lywodraethwyr ers blynyddoedd lawer. Tu hwnt i hynny, mae'n amlwg bod rhai ysgolion yn well na'i gilydd am sicrhau bod eu llywodraethwyr newydd yn mynychu. Mae'r sefyllfa yn amrywio'n sylweddol o ysgol i ysgol.
Er mwyn symud ymlaen bydd angen:
Parhau i fynd ar ôl y wybodaeth ar gyfer y 30 Corff Llywodraethol sydd heb ymateb hyd yma er mwyn cael darlun llawnach o'r sefyllfa;
Hysbysebu'r rhaglen gyffredinol o sesiynau anwytho trwy glercod pob Corff Llywodraethol;
Targedu ysgolion unigol lle bo sawl Llywodraethwr heb fynychu'r hyfforddiant;
Cyflwyno rhaglen hyfforddiant i Glercod er mwyn Sicrhau bod Clercod y Cyrff Llywodraethu yn sylweddoli pwysigrwydd hysbysebu a chofnodi hyfforddiant y llywodraethwyr.
Bydd Llywodraethiant yn ei gyfanrwydd yn un o brif flaenoriaethau'r Adran Addysg ar gyfer 2026-27 gyda datblygu rhaglen flynyddol o hyfforddiant i glercod a llywodraethwyr yn gam gweithredu.
Mae'n fwriad hefyd peilota trefn Clerc Proffesiynol gyda'r ysgolion hynny sydd heb glerc yn bresennol.


Chwarterol | Buddug Mair Huws (ADDYSG)

# Moderneiddio

**Pwrpas:** Gwireddu cyfres o brosiectau i gyrraedd at ddyheadau y Strategaeth Addysg

Iaith
Multiple ...

**Mesurydd:** % o brosiectau cyfalaf sydd yn symud ymlaen yn unol â'r disgwyl




Mae nifer sylweddol o'r prosiectau cyfalaf wedi gweld cynnydd da dros y cyfnod ac ar drac i'w cyflawni'n amserol, ac eraill wedi eu cwblhau, gan gynnwys Ysgol Llanllechid. Derbyniwyd hefyd gymeradwyaeth i Achos Fusnes Campws Cymunedol Bontnewydd gwerth £18.5m ddiwedd Mawrth, ac mae hyn yn ein galluogi i symud ymlaen a'r gwaith i gychwyn ar y safle. Fodd bynnag, mae'r maes parcio eto i'w greu ar gyfer Ysgol Y Faenol a Chanolfan Penrhosgarnedd mewn cydweithrediad gyda Chyngor Cymuned Pentir (Prosiect Band A), ond rydym ynghanol y broses dendro ar gyfer hynny ar hyn o bryd, ac mae'r Cyngor Cymuned bellach yn gwneud defnydd o'r Ganolfan newydd ar safle'r Ysgol sydd yn newyddion arbennig o dda.

Misol | Debbie Anne Jones (ADDYSG)


*"Hyrwyddo cyflawniad a lles plant a phobl ifanc Gwynedd drwy sicrhau llywodraethiant, arweinyddiaeth a rheolaeth effeithiol ein hysgolion"*

Iaith
Multiple ...

# Moderneiddio

**Pwrpas:** Gwireddu cyfres o brosiectau i gyrraedd at ddyheadau y Strategaeth Addysg

**Mesurydd:** % o brosiectau di-gyfalaf sy'n symud ymlaen yn unol â'r disgwyl




Mae ymgynghoriad statudol ar y cynnig arfaethedig i gau Ysgol Nebo ac Ysgol Baladeulyn ar 31 Rhagfyr 2026 a darparu lle i ddysgwyr yn Ysgol Llanllyfni ac Ysgol Talysarn o 1 Ionawr 2027 ymlaen wedi ei gynnal a daeth yr ymgynghoriadau i ben ddiwedd mis Ionawr 2026. Ar hyn o bryd, mae'r Tîm Moderneiddio yn ystyried yr holl sylwadau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori, gyda'r bwriad o adrodd yn ôl i'r Cabinet ym mis Mai 2026.
Ar 10 Chwefror cyflwynwyd papur cynnig gerbron y Cabinet yn gofyn iddynt gymeradwyo cyhoeddi rhybudd statudol, yn caniatáu cyfnod gwrthwynebu statudol o 28 diwrnod ar y cynnig i gau Ysgol Y Garreg ar 31 Awst 2026 a dynodi Ysgol Cefn Coch fel yr ysgol amgen o 1 Medi 2026. Bellach mae'r cyfnod gwrthwyenbu statudol o 28 diwrnod wedi dod i ben, ac ni dderbyniwyd unrhyw wrthwynebiadau. Byddwn nawr yn symud ymlaen i sicrhau penderfyniad terfynol ar y cynnig i gau Ysgol Y Garreg ar 31 Awst 2026 a dynodi Ysgol Cefn Coch fel yr ysgol amgen o 1 Medi 2026 ym mis Mai 2026.

Misol | Debbie Anne Jones (ADDYSG)


# Mynediad Ysgolion

**Pwrpas:** Sicrhau fod data a phrosesau mynediad i Ysgolion yn gyfredol ac yn deg

Iaith

Multiple sele...

**Mesurydd:** Nifer o apeliadau mynediad i ysgolion a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod




Ni dderbyniwyd unrhyw apêl yn erbyn penderfyniad yr Awdurdod yn ystod y cyfnod adrodd, Beth bynnag, wrth i ni agosáu at diwrnod penderfyniad ceisiadau blwyddyn derbyn ar gyfer Medi 2026, rhagwelir y potensial am apeliadau ar sail gwrthod 15 cais (dewis cyntaf). Bydd rhaid ymateb i'r apeliadau wrth iddynt ddod i fewn.

Misol | Kenny Norgain (ADDYSG)


*"Hyrwyddo cyflawniad a lles plant a phobl ifanc Gwynedd drwy sicrhau llywodraethiant, arweinyddiaeth a rheolaeth effeithiol ein hysgolion"*

# Mynediad Ysgolion

**Pwrpas:** Sicrhau fod data a phrosesau mynediad i Ysgolion yn gyfredol ac yn deg

Iaith
Multiple sele...

**Mesurydd:** Nifer y ceisiadau trosglwyddo Ysgol a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod




Mae'r broses Mynediad i Ysgolion yn digwydd yn barhaus drwy gydol y flwyddyn drwy'r broses trosglwyddo Ysgol – mae gan rhiant hawl i wneud cais trosglwyddo ar unrhyw bwynt yn ystod y flwyddyn, heb orfod rhoi rheswm am wneud y cais. Yn ystod y cyfnod, derbyniwyd 230 cais i drosglwyddo ysgol yng Ngwynedd, o'r rhain derbyniwyd 148 o geisiadau trosglwyddo yn y sector cynradd, ac o'r data nid oes tuedd amlwg o ran symudiadau allan o unrhyw ysgol benodol. Yn y sector uwchradd, derbyniwyd 82 o geisiadau trosglwyddo, ac er bod y ceisiadau trosglwyddo o bob ysgol uwchradd yn gyffredinol, mae'r data hefyd yn dangos fod nifer uwch o geisiadau trosglwyddo o rai ysgolion uwchradd penodol.

Misol Kenny Norgain (ADDYSG)

*"Hyrwyddo cyflawniad a lles plant a phobl ifanc Gwynedd drwy sicrhau llywodraethiant, arweinyddiaeth a rheolaeth effeithiol ein hysgolion"*


# Mynediad Ysgolion

Iaith

Multiple sele...

**Pwrpas:** Sicrhau fod data a phrosesau mynediad i Ysgolion yn gyfredol ac yn deg

**Mesurydd:** % y ceisiadau mynediad i flwyddyn derbyn ble y cynigir lle ar sail y dewis cyntaf




Derbyniwyd 947 o geisiadau mynediad i blwyddyn derbyn ar gyfer mis Medi 2026 – mae 15 o'r rhain wedi cael ei gwrthod ar sail gôr danysgrifiad, mae'r 15 wedi cael cynnig lle ar sail ei ail-ddewis. Mae gan y rhieni hawl i apelio yn erbyn y penderfyniad, felly rhagwelir cynnydd mewn apeliadau yn y cyfnod adrodd nesaf.

Chwarterol — Kenny Norgain (ADDYSG)

*"Hyrwyddo cyflawniad a lles plant a phobl ifanc Gwynedd drwy sicrhau llywodraethiant, arweinyddiaeth a rheolaeth effeithiol ein hysgolion"*


# Mynediad Ysgolion

**Pwrpas:** Sicrhau fod data a phrosesau mynediad i Ysgolion yn gyfredol ac yn deg

Iaith

Multiple sele...

**Mesurydd:** % y ceisiadau mynediad i flwyddyn 7 ble y cynigir lle ar sail y dewis cyntaf




Derbyniwyd 1,144 o geisiadau mynediad i flwyddyn 7, ac mae pawb wedi derbyn cadarnhad o'i dewis cyntaf. Mae ceisiadau hwyr yn parhau i ddod i fewn ac yn cael eu prosesu.

Chwarterol — Kenny Norgain (ADDYSG)


*"Hyrwyddo cyflawniad a lles plant a phobl ifanc Gwynedd drwy sicrhau llywodraethiant, arweinyddiaeth a rheolaeth effeithiol ein hysgolion"*

# Safonau Ysgol

**Pwrpas:** Cefnogi rheolaeth, arweinyddiaeth a llywodraethiant effeithiol ysgolion Gwynedd

Iaith
Multiple sele...

**Mesurydd:** Canran o ysgolion sydd wedi derbyn ymweliad cefnogi yn ystod y tymor




Mae 97.87% ( 92 ysgol) wedi derbyn o leiaf un ymweliad cefnogol craidd yn ystod y tymor gan swyddogion cefnogi ysgol.

Mae hyn yn gynnydd bychain o gymharu â Tymor yr Hydref. Mae'r swyddogion wedi llwyddo i gael mynediad i bob ysgol ar draws yr Awdurdod ers sefydlu'r Gwasanaeth gyda'r ymdeimlad o gydweithio mewn partneriaeth agored gyda'r Awdurdod yn datblygu. Mae'r ymweliadau hyn wedi esblygu i fod yn edrych yn benodol ar brosesau hunanwerthuso a sicrhau ansawdd yr ysgolion gan gynnwys craffu ar waith dysgwyr, cynnal teithiau dysgu a gwrando ar lais dysgwyr.

Mae'r ymweliadau hyn wedi galluogi'r swyddogion i ddatblygu adnabyddiaeth gref o holl ysgolion yr Awdurdod gan adnabod ble mae'r arferion gorau yn ogystal ag adnabod yr ysgolion hynny sydd angen cefnogaeth bellach gyda agweddau penodol.

Er y bydd rôl y swyddogion cefnogi ysgolion yn esblygu wrth i'r ysgolion berchnogi'r model o gydweithio, mae'r penaethiaid yn awyddus iawn i ymweliadau tymhorol pwrpasol barhau dros 2026-27.

Misol | Alison Halliday (ADDYSG)


*"Hyrwyddo cyflawniad a lles plant a phobl ifanc Gwynedd drwy sicrhau llywodraethiant, arweinyddiaeth a rheolaeth effeithiol ein hysgolion"*

# Safonau Ysgol

**Pwrpas:** Cefnogi rheolaeth, arweinyddiaeth a llywodraethiant effeithiol ysgolion Gwynedd

Iaith
Multiple sele...

**Mesurydd:** Canran o ysgolion sydd heb bennaeth parhaol




Mae hyn yn gyfystyr a 12 o ysgolion cynradd sy'n cael eu harwain gan bennaeth mewn gofal dros dro.

Yn ogystal a'r penaethiaid dros dro a gyfeirir atynt uchod, mae yna drefniadau pennaeth mewn gofal dros dro yn bodoli mewn 7 ysgol ychwanegol oherwydd absenoldeb hir-dymor pennaeth parhaol. Felly, mae trefniadau pennaeth dros dro yn weithredol mewn cyfanswm o 19 ysgol ar draws yr Awdurdod - 16 Cynradd, 2 Uwchradd a 1 Arbennig

Yn gyffredinol rydym wedi gweld gostyngiad sylweddol yn niferoedd ceisiadau am swyddi pennaeth dros y ddwy flynedd diwethaf a'r her i ddenu unigolion i swydd pennaeth ar gynnydd. Mewn ymateb i'r her mae'r Adran Addysg wedi llunio rhaglen ddatblygol 'Arweinwyr y Dyfodol' er mwyn cynnig cefnogaeth ymarferol a sicrhau llwybr datblygol ac olyniaeth o fewn y gyfundrefn. Rydym yn rhedeg y rhaglen am yr eildro eleni ar gyfer dwy garfan gyda 17 o gyfranogwyr o'r Cynradd a 7 o'r Uwchradd.
Yn ystod 2024-25 bu i 14 o gyfranogwyr o'r Cynradd a'r Uwchradd gwblhau'r rhaglen.
Ers Ionawr 2026, rydym wedi datblygu rhaglen sy'n cynnig cefnogaeth bwrpasol ar gyfer penaethiaid newydd a phenaethiaid sydd mewn gofal sydd hefyd yn cynnig cefnogaeth mentor a chyfle i rwydweithio. Yn bresennol mae 22 o benaethiaid wedi ymrwymo i'r rhaglen hon gyda'r adborth yn gadarnhaol iawn hyd yma.

Ein camau nesaf fydd gweithio efo'n ysgolion i sicrhau bod ymarferwyr yn cael eu hannog i fynychu rhaglenni datblygol arweinwyr canol ac uwch arweinwyr sy'n cael eu cynnal gan DYSGU yn ogystal a datblygu rhaglen i feithrin hyder dirprwyon ac aelodau o uwch dimau arwain er mwyn eu paratoi ar gyfer y cam nesaf yn eu gyrfa neu gwneud cais am CPCP – Cymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol am Prifathrawiaeth.

Misol | Alison Halliday (ADDYSG)


*"Hyrwyddo cyflawniad a lles plant a phobl ifanc Gwynedd drwy sicrhau llywodraethiant, arweinyddiaeth a rheolaeth effeithiol ein hysgolion"*

# Safonau Ysgol

**Pwrpas:** Cefnogi rheolaeth, arweinyddiaeth a llywodraethiant effeithiol ysgolion Gwynedd

Iaith: Multiple sele...

**Mesurydd:** Nifer o ysgolion sydd mewn categori statudol Estyn




Mae 5 ysgol o 94 yr Awdurdod mewn categori statudol Estyn yn bresennol.
1 ysgol – Gwelliant Sylweddol
4 ysgol – Mesurau Arbennig ( Mae 3 ysgol yn rhan o'r un ffederasiwn)

Bydd ysgol sy'n cael ei gosod mewn categori statudol yn aros yn y categori yma hyd nes y bydd Estyn yn dyfarnu bod yr ysgol wedi gwneud cynnydd digonol yn erbyn eu hargymhellion. Gall hyn gymryd rhwng deunaw mis a thair blynedd.

Mae'r ysgolion sydd mewn categori statudol yn derbyn lefel uwch o gefnogaeth gan yr Awdurdod ar ffurf cynllun cefnogaeth cytunedig sy'n cynnwys cefnogaeth gan y Gwasanaethau Cefnogaeth Ysgolion, Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad a Diogelu. Mae Bwrdd Cefnogi Ysgol sy'n cynnwys y pennaeth ac uwch dim arwain, Llywodraethwyr a Swyddogion yn cael ei sefydlu er mwyn craffu ar gynnydd yr ysgol yn erbyn cerrig milltir yr argymhellion o fewn y Cynllun Gweithredu Ôl Arolwg (CGOA) gan gytuno ar unrhyw weithredu pellach.

Ers mis Medi 2025 mae 14 o ysgolion wedi dderbyn arolygiad craidd hyd yma.

Misol | Alison Halliday (ADDYSG)


*"Hyrwyddo cyflawniad a lles plant a phobl ifanc Gwynedd drwy sicrhau llywodraethiant, arweinyddiaeth a rheolaeth effeithiol ein hysgolion"*

# Uned Ddata

**Pwrpas:** Sicrhau cefnogaeth i'r Adran drwy ddarparu isadeiledd data a gwybodaeth o ansawdd uchel sy'n gyrru penderfyniadau a pherfformiad

Iaith
Multiple sele...

**Mesurydd:** % o 'gwsmeriaid' sy'n adrodd bod y data a dderbyniwyd o ansawdd uchel a bod y wybodaeth/data a dderbyniwyd wedi arwain at benderfyniadau




Gyrrwyd 8 holiadur i gwsmeriaid yn ystod y cyfnod, o'r rheini derbyniwyd 5 yn ôl, gyda 4 yn datgan eu bod yn fodlon iawn gyda safon y gwaith a dderbyniwyd yn ôl gan yr Uned – roedd yr 1 ymateb arall y nodi eu bod yn 'fodlon' gyda'r gwaith, ni gafwyd unrhyw sylwadau yn ôl.
Er fod gostyngiad bach, mae lefel perfformiad yn parhau i fod yn dderbyniol, ond mae rhaid ystyried fod y sampl yn eithaf bach unwaith eto.
Wrth edrych yn ôl ar y flwyddyn, mae sylwadau wedi bod yn galonogol iawn parthed safon y gwaith. Beth bynnag, mae sail i wella rhai elfennau o'r gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu, a fydd hyn yn cael ei gynnwys yng Nghynllun Busnes yr Uned am 2026/27.


Misol | Kenny Norgain (ADDYSG)

Iaith
Multiple sele...

# ABC

**Pwrpas:** Paratoi plant ifanc ar gyfer byd addysg ac i fod yn ddysgwyr cyflawn ac annibynnol a cefnogi staff ysgolion a lleoliadau i ddarparu ar eu cyfer

**Mesurydd:** % o ddefnyddwyr sydd yn fodlon gyda chefnogaeth y gwasanaeth




Gyda dwyster yr anghenion rydym yn eu gweld mewn ysgolion prif-lif yn cynyddu, mae'r galw am arbenigedd y tîm ABC yn cynyddu. Mae ysgolion yn gwerthfawrogi arweiniad a chefnogaeth y tîm yn gynnar yn y meithrin, gan gydnabod pa mor bwysig yw cael y cychwyn gorau i'r plentyn.

Yn gynyddol, mae nifer o ysgolion yn mynegi eu dymuniad i gael mwy o ganolfannau ABC er mwyn i ni allu targedu a chefnogi mwy o blant – sy'n dangos yn glir eu bod yn gweld yr angen ac yn gwerthfawrogi effaith y ddarpariaeth.

Er nad yw'r tîm yn derbyn ymateb i bob holiadur, maent yn derbyn sylwadau cadarnhaol iawn yn ystod ymweliadau ymestyn allan, cyfarfodydd a pan daw'r rhieni i'r Ganolfan.

Derbyniwyd 4 ymateb holiadur .

Rhannodd Cydlynydd ADY un Ysgol 'Rwy'n fwy na hapus gyda'r gwasanaeth rydym yn ei dderbyn gan yr Uned ABC yn ein hysgol. Diolch'
Gyda Rhieni yn rhannu :
'Very happy with the service. All staff very kind and helpful.' 'Staff at the ABC are amazing and so helpful. My little boy loves attending . I'm so thankful to them, Service is excellent, I cant think of a way it can be improved.'
Mae'r adborth yn cadarnhau bod mewnbwn y tîm yn effeithiol.

Misol — Einir Rees Jones (ADDYSG)

*"Hyrwyddo cyflawniad a lles plant a phobl ifanc Gwynedd drwy sicrhau llywodraethiant, arweinyddiaeth a rheolaeth effeithiol ein hysgolion"*


Iaith

Multiple sele...

# ABC

**Pwrpas:** Paratoi plant ifanc ar gyfer byd addysg ac i fod yn ddysgwyr cyflawn ac annibynnol a cefnogi staff ysgolion a lleoliadau i ddarparu ar eu cyfer

**Mesurydd:** % o blant a phobl ifanc sydd yn derbyn mewnbwn ac yn gwneud cynnydd




Mae'r data'n dangos cynnydd yn nifer y plant oed meithrin ag ADY (Anghenion Dysgu Ychwanegol) sy'n derbyn cefnogaeth gan wasanaeth ABC drwy Ganolfannau ac Ymestyn Allan. Defnyddir Proffil Tracio Cynnydd ar ddechrau'r flwyddyn i asesu lefel ddatblygiadol gychwynnol y plentyn, yn seiliedig ar gerrig milltir Blynyddoedd Cynnar wedi'u rhannu'n gamau bach a mesuradwy.
Yn Nhymor 1, gwnaeth 5 plentyn gynnydd sylweddol o ganlyniad i ymyrraeth gynnar, gan arwain at drosglwyddo i CDU (Cynllun Datblygu Unigol) yr ysgol neu gynyddu cefnogaeth yn y prif lif. Yn dilyn hyn, cynhaliwyd 4 sesiwn hyfforddiant HMS, a symudwyd plant Ymestyn Allan heb gynnydd i Ganolfannau ABC yn Nhymor 2, lle gwelwyd cynnydd addawol.
Yn Nhymor 2, ni welwyd cynnydd mewn 16.5% o'r disgyblion oherwydd diffyg dilyn strategaethau ysgolion, presenoldeb isel, dwysedd anghenion, cyfeiriadau newydd, a chynnydd mewn anghenion ymddygiadol a synhwyraidd dwys.
Er mwyn ymateb, bydd y gwasanaeth yn parhau i gydweithio ag ysgolion, Swyddogion Ansawdd ac asiantaethau eraill, sicrhau aliniad rhwng y Proffil Tracio, CDU a Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol, datblygu ymarferion cynhwysol, adolygu meini prawf mynediad y gwasanaeth, a pharhau â threfniadau hyfforddiant HMS.

Monthly — Einir Rees Jones (ADDYSG)


# ADY Ansawdd & Gweinyddol

**Pwrpas:** Cefnogi ysgolion yn datblygu i fod yn sefydliadau cynhwysol fel bod pob dysgwr yn cyrraedd eu potensial

Iaith

Multiple sele...

**Mesurydd:** Nifer o achosion a aeth ymlaen i lefel tribiwnlys




Mae'r Awdurdod Addysg yn hybu osgoi a datrys unrhyw anghydfod gyda rheini mor fuan ag sy'n bosib. Ac mewn rhan helaeth o achosion (dros 95%) o achosion mae hyn yn digwydd. Yn y cyfnod hwn mae'r Swyddogion Ansawdd wedi datrys 6 achos ac wedi osgoi y rhain fynd i apêl tribiwnlys.
Mae'r apeliadau tribiwnlysoedd yn digwydd ar agweddau penodol o'r Cynllun Addysg Unigol sydd wedi cael eu pennu gan statud. Mae nifer uchel o'r apeliadau yn ymwneud â lleoliad addysgol neu ddarpariaeth y Bwrdd Iechyd yn yr ysgolion. Mae gan bob rhiant yr hawl i gyflwyno apêl tribiwnlys a phrin yw'r achosion hynny. Er hyn cafwyd 1 achos apêl newydd yn ystod y cyfnod hwn ac mae 3 dal yn agored. Mae 1 o'r pedwar ar fin cael ei ddatrys gyda'r disgwyliad i'r rhiant dynnu'r apêl yn ôl. Bydd Gwrandawiadau'r 3 arall cyn diwedd Gorffennaf 2026.

Chwarterol | Einir Thomas (ADDYSG)


# ADY Ansawdd & Gweinyddol

**Pwrpas:** Cefnogi ysgolion yn datblygu i fod yn sefydliadau cynhwysol fel bod pob dysgwr yn cyrraedd eu potensial

Iaith

Multiple sele...

**Mesurydd:** % o ysgolion sydd angen cymorth tu draw i'r arferol – sef ymweliadau o leiaf bob hanner tymor (neu y nifer ysgolion sydd yn cael eu uwchraddio i'r system BAS oherwydd ansawdd ADY/Ch)




Mae cefnogaeth raddoledig i ysgolion gan y Gwasanaeth Ansawdd yn cynnwys ymweliad tymhorol fel y lefel isaf o gefnogaeth hyd at gefnogaeth wythnosol sydd wedi ei gynllunio ar y cyd ac o fewn cynllun cefnogi ar y raddfa uchaf.

Mae'r ysgolion a fu yn derbyn mewnbwn wythnosol gan y swyddogion ansawdd bellach i gyd wedi cael eu hisraddio.

Yn ystod y cyfnod Herio Perfformiad hwn mae 3 ysgol newydd wedi symud i lefel uwch o gymorth, gydag un ysgol yn parhau gyda'r cymorth uchel. Mae'r pedair ysgol yn derbyn lefel uchel oherwydd un ai absenoldebau strategol neu oherwydd Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol newydd. Mae pecynnau unigol o gefnogaeth wedi ei deilwra i'r pedair ysgol gyda chydweithio ar draws yr Adran Addysg gyda dwy ysgol.

Mae cyswllt chwarterol yn dal i gael ei gynnal gyda'r 4 ysgol a fu'n derbyn mewnbwn o raddfa uwch hyn tan ddiwedd y flwyddyn academaidd, rhag tynnu'n ôl yn gyfan gwbl i gymorth arferol.


Misol | Einir Thomas (ADDYSG)

# ADY Blynyddoedd Cynnar

**Pwrpas:** Sicrhau fod dyletswyddau statudol yr ALl mewn perthynas â phlant o dan oedran ysgol yn cael eu gweithredu'n llawn er mwyn adnabod anghenion yn brydlon a rhoi ymyriadau priodol ar waith i atal ADY rhag datblygu neu waethygu

Iaith
Multiple sele...

**Mesurydd:** % o ddefnyddwyr sydd yn fodlon gyda chefnogaeth y gwasanaeth




Derbyniwyd 8 ymateb yn ystod y cyfnod diwethaf, gyda phob un yn nodi eu bod yn fodlon iawn gyda'r gefnogaeth a dderbyniwyd gan y tîm wrth gwblhau proses ymholiad ADY, sef proses statudol er mwyn adnabod a oes gan y plentyn ADY ai peidio, neu wrth adolygu'r CDU.
Dyma rannu enghraifft o un o'r adborth a dderbyniwyd:
' I have received a lot of support and information since starting working with **. she has also been exceptional with my daughter and gave me a lot of peace of mind and confidence with what happens next for **'
'has been amazing and as a family we really appreciate everything that this service provides to families like mine.'
'We are very grateful and my son has definitely benefited from the early learning ALN service.'
Mae'r holiaduron yn cadarnhau bod mewnbwn y tîm yn effeithiol ac yn sicrhau bod plant ifanc sy'n mynd drwy'r broses statudol yng Ngwynedd yn cael y cychwyn gorau posibl ar eu taith drwy'r system addysg. Hefyd, mae'r tîm yn sicrhau bod y gefnogaeth broffesiynol y maent yn ei rhoi i deuluoedd yn arwain at brofiad cadarnhaol, er y gall y broses fod yn heriol i rai ohonynt.
Er bod yr ymatebion yn sampl fach, gallwn gadarnhau nad oes unrhyw riant wedi cysylltu â'r Swyddog Arweiniol ADY yn y Blynyddoedd Cynnar i drafod unrhyw anghydfod, ac felly nid oes unrhyw achos tribiwnlys wedi'i gofnodi yn y Blynyddoedd Cynnar.


Misol | Ellen Mai Jones (ADDYSG)

# ADY Blynyddoedd Cynnar

**Pwrpas:** Sicrhau fod dyletswyddau statudol yr ALI mewn perthynas â phlant o dan oedran ysgol yn cael eu gweithredu'n llawn er mwyn adnabod anghenion yn brydlon a rhoi ymyriadau priodol ar waith i atal ADY rhag datblygu neu waethygu

Iaith
Multiple sele...

**Mesurydd:** % o blant a phobl ifanc sydd yn derbyn mewnbwn uniongyrchol ac yn gwneud cynnydd




Adolygwyd cynnydd yn erbyn targedau mewn 64 Cynllun Datblygu Unigol (CDU – dogfen statudol). Dengys fod y rhan fwyaf (91%) o'r plant wedi gwneud cynnydd da neu well, gyda lleiafrif (27%) yn gwneud cynnydd da iawn. Mae hyn yn cadarnhau bod y ddarpariaeth a'r gefnogaeth i leoliadau a theuluoedd gan dîm ADY Blynyddoedd Cynnar yn cael effaith gadarnhaol iawn ar ddeilliannau plant 0–3 oed.
O'r 9% (6 plentyn) lle bu cynnydd yn arafach, mae gweithdrefnau monitro ansawdd yn dangos bod darpariaeth y lleoliadau yn dda iawn. Mae'r rhesymau dros gynnydd arafach yn cynnwys ffactorau megis cyfnod setlo mewn lleoliad newydd, presenoldeb isel, amgylchiadau cartref, anghysondeb ar draws meysydd datblygu neu fod cynnydd da wedi'i wneud yn y tymor blaenorol.


Chwarterol | Ellen Mai Jones (ADDYSG)

# ADY Blynyddoedd Cynnar

**Pwrpas:** Sicrhau fod dyletswyddau statudol yr ALI mewn perthynas â phlant o dan oedran ysgol yn cael eu gweithredu'n llawn er mwyn adnabod anghenion yn brydlon a rhoi ymyriadau priodol ar waith i atal ADY rhag datblygu neu waethygu

Iaith
Multiple sele...

**Mesurydd:** % yr achosion sy'n cyd fynd a'r amserlen statudol




Yn ystod y cyfnod diwethaf, derbyniwyd 30 cyfeiriad i gychwyn y broses statudol 'Ymholiad ADY' yn y Blynyddoedd Cynnar, sef cynnydd o 20% o'i gymharu â'r cyfnod blaenorol, ond sy'n gyson â'r patrwm tymhorol arferol ar gyfer tymor y Gwanwyn. Yn ystod yr un cyfnod, cwblhawyd 33 Ymholiad ADY, gyda 18 yn arwain at roi Cynllun Datblygu Unigol (CDU) ar waith. Cwblhawyd 26 o'r ymholiadau hyn o fewn 6 wythnos ar gyfartaledd, sy'n sylweddol gyflymach na'r amserlen statudol o 12 wythnos. Bu angen oedi'r amserlen mewn 7 achos er mwyn sicrhau bod gwybodaeth llawn a pherthnasol ar gael, ac yn yr achosion hyn cynhaliwyd cyfathrebu clir, amserol a chyson gyda rhieni.
Noder hefyd fod nifer y penderfyniadau "dim ADY" yn sylweddol uwch na'r un cyfnod y llynedd. Wrth graffu'n fanylach ar y data, gwelir bod dros hanner yr achosion hyn yn tarddu o un ardal benodol.

Misol | Ellen Mai Jones (ADDYSG)

*"Hyrwyddo cyflawniad a lles plant a phobl ifanc Gwynedd drwy sicrhau llywodraethiant, arweinyddiaeth a rheolaeth effeithiol ein hysgolion"*


# ADY Penodol

**Pwrpas:** Cefnogi plant a phobl ifanc sy'n cael anawsterau sylweddol yn y maes llythrennedd a rhifedd i gael mynediad i addysg

Iaith

Multiple sele...

**Mesurydd:** % o ddefnyddwyr sydd yn fodlon gyda chefnogaeth y gwasanaeth




Cafodd 10 holiadur ei yrru allan yn ystod y tymor gyda 3 yn cyflwyno ymateb. Mae'n ymddangos fod 2 o'r defnyddwyr yn fodlon iawn gyda'r gwasanaeth ac 1 yn fodlon.
Mae'r defnyddwyr yn mynegi eu bod yn fodlon iawn gyda'r adnoddau sydd yn cael eu creu a'u rhannu gan y tîm. Mae defnyddiwr arall yn teimlo ei bod wedi derbyn adborth ac adroddiad am gyrhaeddiad disgybl yn amserol iawn ac yn dilyn hynny, yn ddiolchgar o'r hyfforddiant i uwch-sgilio staff yr ysgol wrth gynllunio ar gyfer cefnogi'r disgyblion yma.
Bydd y gwasanaeth yn parhau i gefnogi ysgolion drwy greu adnoddau a hyfforddi staff ar ddulliau cefnogi disgyblion sydd yn cael anhawster sylweddol yn y maes llythrennedd a rhifedd.


Misol | Einir Thomas (ADDYSG)

# ADY Penodol

**Pwrpas:** Cefnogi plant a phobl ifanc sy'n cael anawsterau sylweddol yn y maes llythrennedd a rhifedd i gael mynediad i addysg

Iaith
Multiple sele...

**Mesurydd:** Nifer o blant sydd angen mewnbwn uniongyrchol gan y gwasanaeth




Roedd 71 o ddisgyblion yn derbyn mewnbwn gan y gwasanaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol penodol yn ystod y tymor sydd yn leihad o 11% wrth gymharu â Rhagfyr 2025.
Mae'n debygol fod y lleihad yn y gofyn am y gwasanaeth yn ganlyniad i hyfforddiant llwyddiannus diweddar yn ystod dyddiau HMS, gyda staff ysgolion yn gallu diwallu anghenion a chefnogi y disgyblion yn annibynnol.
Mae'r gwasanaeth yn parhau i gynnal hyfforddiant yn ogystal â datblygu adnoddau anghenion dysgu ychwanegol penodol ar gyfer disgyblion sydd yn cael anhawster sylweddol yn y maes llythrennedd a rhifedd.

Misol | Einir Thomas (ADDYSG)


# Corfforol, Meddygol & Synhwyraidd

**Pwrpas:** Cefnogi plant a phobl ifan sydd a chyflwr meddygol/corfforol/synhwyraidd i gael mynediad i addysg

Iaith

Multiple sele...

**Mesurydd:** % o ddefnyddwyr sydd yn fodlon gyda chefnogaeth y gwasanaeth




Cafodd 24 o holiaduron eu gyrru allan yn ystod y tymor a dderbyniwyd 9 ymateb. Roedd 8 yn Fodlon iawn gyda'r gwasanaeth ac 1 yn Fodlon. Roedd y sylwadau yn gadarnhaol gan nodi bod staff arbenigol yn ymateb mor fuan â phosibl i geisiadau am gefnogaeth a'u bod yn teimlo fod y mewnbwn hynny yn werthfawr iawn. Roedd un defnyddiwr yn mynegi bod derbyn hyfforddiant diweddar wedi bod yn hynod o fuddiol i staff yr ysgol wrth gefnogi disgybl â nam synhwyraidd. Roedd sylwadau gan ddefnyddiwr arall yn nodi bod cydweithio effeithiol iawn rhwng yr ysgol a'r athrawes arbenigol drwy gyfarfod gyda'r rhieni (ar y cyd a'r ysgol) a rhoi arweiniad pellach a chyngor ar asesiad risg.

Misol — Sara Llwyd Davies (ADDYSG)

*"Hyrwyddo cyflawniad a lles plant a phobl ifanc Gwynedd drwy sicrhau llywodraethiant, arweinyddiaeth a rheolaeth effeithiol ein hysgolion"*


# Corfforol, Meddygol & Synhwyraidd

**Pwrpas:** Cefnogi plant a phobl ifan sydd a chyflwr meddygol/corfforol/synhwyraidd gael mynediad i addysg

Iaith

Multiple sele...

**Mesurydd:** % o blant a phobl ifanc sydd yn derbyn mewnbwn uniongyrchol ac yn gwneud cynnydd




Mae'r data'n dangos cynnydd disgyblion a gafodd gefnogaeth reolaidd gan athrawon arbenigol synhwyraidd. Yn ystod y tymor diwethaf, cafodd disgyblion gefnogaeth uniongyrchol i ddatblygu sgiliau arbenigol megis teipio cyffwrdd, Braille, arwyddo (BSL/Makaton) a defnyddio offer clyw. Gwnaed cynnydd gan 97% o'r disgyblion.
Ni welwyd cynnydd gan 3% o'r disgyblion oherwydd amharodrwydd i ddefnyddio offer arbenigol ar ôl diagnosis, neu oherwydd prinder staff cymorth wedi'u hyfforddi i gefnogi disgyblion nam clyw yn gyson yn yr ysgol.

Er mwyn mynd i'r afael â phryderon presenoldeb, cynhaliwyd cyfarfodydd i wella ymgysylltiad disgyblion, gan arwain at well presenoldeb a derbyn cefnogaeth gan y gwasanaeth synhwyraidd.
Ar gyfer cefnogi'r disgyblion lle na welwyd cynnydd a chynllunio ar gyfer y tymor nesaf, bwriedir:

- Cefnogi trosglwyddiad graddol i ysgolion uwchradd gan sicrhau hyfforddiant arbenigol i staff newydd.
- Rhoi amser i ddisgyblion ymgyfarwyddo ag offer newydd a chryfhau cyfathrebu rhwng rhieni, ysgolion a'r gwasanaeth arbenigol.
- Parhau i weithio gydag ysgolion sy'n cael anhawster penodi staff arbenigol.

Chwarterol | Sara Llwyd Davies (ADDYSG)


Iaith

Multiple sele...

# Cyfathrebu & Rhyngweithio

**Pwrpas:** Gwella sgiliau cyfathrebu a rhyngweithio disgyblion sydd ar y Sbectrwm Awtistiaeth neu gydag anawsterau cyfathrebu fel y gallant ffynnu yn addysgol a chymdeithasol

**Mesurydd:** % o ddefnyddwyr sydd yn fodlon gyda chefnogaeth y gwasanaeth




Rydym yn ymfalchïo yn y ffaith fod 100% o'r adborth bodlonrwydd gan ysgolion y tro hwn yn nodi eu bod yn fodlon iawn gyda'r gwasanaeth rydym yn ei gynnig. Braf gweld hefyd bod y sylwadau rydym wedi ei dderbyn gan rieni yn gadarnhaol iawn.
Sylwadau penodol:
'Nid oes gennyf unrhyw awgrymiadau gan fy mod yn hynod fodlon ar y gwasanaeth mae fy mab yn ei dderbyn'.

'Dim byd mewn gwirionedd, rydych chi'n gwneud gwaith gwych gyda'r plant ac rwy'n hynod falch o XXXX, mae wedi gwneud cynnydd mor dda gyda chi".

'Dim byd sy'n dod i'r meddwl — mae popeth am y ganolfan a'r staff yn 100%.
Mae'n dod adref yn hapus ac rwy'n gweld newid mawr ynddo ers iddo fod yno'.

'Methu beio'r gwasanaeth o gwbl. Mae'r staff i gyd yn wych'.

'Mae fy merch wedi gwneud cynnydd anhygoel ers bod yn y ganolfan ac mae hynny i gyd i lawr i waith caled y staff'.

'Rydyn ni'n ddiolchgar iawn i chi gyd. Rydych chi'n anhygoel! Diolch.'


Misol | Delyth Gibbard (ADDYSG)

# Cyfathrebu & Rhyngweithio

**Pwrpas:** Gwella sgiliau cyfathrebu a rhyngweithio disgyblion sydd ar y Sbectrwm Awtistiaeth neu gydag anawsterau cyfathrebu fel y gallant ffynnu yn addysgol a chymdeithasol

Iaith
Multiple sele...

**Mesurydd:** % o blant a phobl ifanc sydd yn derbyn mewnbwn ac yn gwneud cynnydd




Rydym yn mesur cynnydd disgyblion prif lif cynradd ac uwchradd sy'n derbyn mewnbwn uniongyrchol gennym fel tîm unai drwy leoliad mewn canolfan arbenigol neu drwy dderbyn mewnbwn rheolaidd gan Gymhorthydd Arbenigol. Dengys ein mesuryddion bod 83% o'r disgyblion hynny wedi gwneud cynnydd da.
Rydym yn defnyddio 'Cofnod Monitro Cynnydd' sy'n arf holistaidd o fesur sgiliau cyfathrebu a rhyngweithio disgyblion. Rydym yn casglu'r wybodaeth ar gyfer y cofnod drwy gynnal asesiadau ac arsylwadau mewn gwahanol sefyllfaoedd. Mae pob disgybl sy'n agored i ni yn cael asesiad cychwynnol a ddefnyddir fel gwaelodlin, yna yn derbyn asesiad tymhorol er mwyn mesur cynnydd.
Mae gostyngiad yn nifer y disgyblion sydd wedi gwneud cynnydd y chwarter hwn, mae sawl ffactor wedi dylanwadau ar y gostyngiad:-

- Absenoldebau yn y tîm- sawl aelod o'r tîm wedi bod yn absennol o'r gwaith am gyfnodau estynedig sy'n effeithio ar ein gallu i gefnogi ysgolion gan ein bod yn gorfod sicrhau staffio digonol yn ein canolfannau.
- Nifer y disgyblion sy'n cael eu cyfeirio atom yn cynyddu
- Dwyster anghenion y disgyblion - hwn yn batrwm amlwg, mae anghenion ein disgyblion mewn ysgolion prif lif yn dwysau.
- Mae prinder Therapyddion Iaith a Lleferydd yn cael ardrawiad arnom fel tîm gan ein bod yn aml yn gorfod llenwi'r bwlch ein hunain.

Beth ydym yn wneud i geisio gwella ymhellach?

- Wedi cyllido hyfforddiant i ysgolion cynradd ac uwchradd drwy arian grant er mwyn codi ymwybyddiaeth o anghenion synhwyraidd.
- Y tîm yn gweithio yn agos gydag ysgolion arbennig yng Ngwynedd er mwyn sicrhau fod y plant cywir yn cael mynediad i Ysgol Arbennig
- Gweithio gydag ysgolion cynradd ac uwchradd, er mwyn sefydlu grwpiau bach sydd yn cynnig cwricwlwm arbenigol i'r disgyblion hynny sy'n ei chael hi'n annod ymgysylltu gydag addysg fwy ffurfiol wrth ddesg.
- Gweithio gyda chartrefi'r disgyblion hynny sy'n cael anhawster mynychu ysgol er mwyn creu perthynas ac adeiladu pontydd rhwng y cartref ac addysg.
- Cefnogi ysgolion prif lif i wneud y defnydd gorau o ymyraethau ac adnoddau ar ôl hyfforddi staff


Misol — Delyth Gibbard (ADDYSG)

# Gweinyddol

**Pwrpas:** Cefnogi'r timau ADYaCH, Ysgolion a'r cyhoedd ar gyfer darparu mewnbwn ADYaCh

Iaith
Multiple sele...

**Mesurydd:** % o benderfyniadau Panel a Fforwm sydd yn cael eu cofnodi yn y CDU o fewn 2 wythnos




Yn dilyn bob fforwm/panel, mae'r tîm gweinyddol yn mewnbynnu'r penderfyniadau ar y CDU ar-lein o fewn pythefnos o'r dyddiad cadarnhau penderfyniad.

Yn ystod y cyfnod hwn roedd:
. 4 Fforwm Dwys
. 4 Panel Ymholiad
. 3 Fforwm Ardal
. 2 Panel Eithriadau ac Ysgolion Arbennig
. 11 Panel Blynyddoedd Cynnar

Misol | Ellen Mai Jones (ADDYSG)


*“Hyrwyddo cyflawniad a lles plant a phobl ifanc Gwynedd drwy sicrhau llywodraethiant, arweinyddiaeth a rheolaeth effeithiol ein hysgolion”*

# Seicoleg

**Pwrpas:** Defnyddio gwybodaeth ac ymyrraethau seiliedig ar Seioleg i hyrwyddo newid cadarnhaol i blant a phobl ifanc

Iaith
Multiple sele...

**Mesurydd:** % o blant a phobl ifanc sydd yn gwneud cynnydd yn dilyn mewnbwn gan y gwasanaeth seicoleg




Mae'r Gwasanaeth Seicoleg Addysgol yn gwasanaeth i ysgolion yn seiliedig ar fodel ymgynghorol lle mae strategaethau i gynorthwyo cynnydd yn cael eu trafod mewn partneriaeth â staff allweddol ysgolion, asiantaethau eraill (ble mae'n berthnasol), a rhieni. Mae yna broses o weithredu ac adolygu yn dilyn. Mae gennym hefyd rôl allweddol mewn hyfforddi, gweithredu ymyraethau a chynnal prosiectau. Yn ogystal a hyn, rydym yn gweithio gyda grwpiau o ddisgyblion o bryd i'w gilydd ac wrth gwrs gyda disgyblion unigol. Mae mesur cynnydd disgyblion unigol, yn dilyn gwaith gan y tim, yn profi yn her am fod y cynnydd mae plentyn yn ei wneud yn amle yn ddibynnol ar ffactorau megis fod y strategaethau a argymhellir mewn adroddiadau neu drwy hyfforddiant, yn cael eu rhoi ar waith yn effeithiol a rheolaidd o fewn ysgolion neu newidiadau ym mywydau yr unigolion sy'n lliniaru effaith ymyrraethau.

Mae'r gwasanaeth seicoleg yn bwriadu mireinio ein dull o gasglu data ar gyfer Medi 2026 ond ar hyn o bryd rydym yn ddibynnol ar ysgolion yn ymateb i'n holiaduron yn adrodd ar gynnydd disgyblion sydd wedi derbyn mewnbwn yn uniongyrchol (drwy arsylwad, gwaith therapiwtig neu asesiad) neu yn anuniongyrchol (drwy ymgynghoriad gyda staff neu drwy hyfforddiant). Mae'r data yma yn seiliedig ar 33 ymateb ac rydym yn falch o weld fod ysgolion yn teimlo fod mwy o blant yn gwneud cynnydd mewn ymateb i ymwneud y tîm seicoleg y chwarter hwn. Gan ein bod yn gweithio yn aml gyda'r bobl (system) o amgylch y plentyn mewn ysgol (Cydlynydd ADY, athrawon dosbarth a chymhorthyddion) mae cynnydd yn aml, yn ddibynnol ar fod yw'r argymhellion yn cael ei gweithredu gan yr ysgol. Mewn achosion ble mae gwaith uniongyrchol therapiwtig yn cael ei wneud gyda disgybl; mae'n haws dweud fod y cynnydd (neu ddiffyg cynnydd) yn deillio o fewnbwn y seicolegydd.


Chwarterol — Elenid Glyn (ADDYSG)

# Seicoleg

**Pwrpas:** Defnyddio gwybodaeth ac ymyrraethau seiliedig ar Seioleg i hyrwyddo newid cadarnhaol i blant a phobl ifanc

Iaith
Multiple sele...

**Mesurydd:** % o'r ELSAs wedi cymhwyso sydd yn mynychu goruchwyliaeth bob hanner tymor




Mae'r prosiect ELSA (Emotional Literacy Support Assistants) yn rhan fawr o waith y gwasanaeth seicoleg addysgol drwy gydol y flwyddyn. Mae'r tim seicoleg addysg yn hyfforddi cymorthyddion i gynnal ymyraethau lles mewn ysgolion ar gyfer plant sydd yn fregus yn emosiynol ac ymddygiadol, o dan oruchwyliaeth gyson Seicolegwyr Addysgol. Drwy'r prosiect yma mae nifer uchel o blant yn derbyn ymyrraeth yn amserol a chyda oedolyn cyfarwydd iddynt. Er mwyn sicrhau ansawdd y ddarpariaeth bwysig yma, ac i sicrhau fod y gwaith wedi ei seilio ar dystiolaeth seicolegol gyfredol, mae'n ofynnol i'r cymorthyddion ELSA fynychu sesiynau goruchwyliaeth gyda'r tim yn rheolaidd.

Mewn cyfnod ble mae'r tim seicoleg wedi bod o dan gapasiti ers cyfnod estynedig (oherwydd problemau recriwtio cenedlaethol) rydym wedi gorfod addasu ein dull o weithio yn aml i gyfarch yr anghenion yn yr ysgolion ac mae prosiect ELSA yn rhywbeth rydym yn ei weld fel un o'r elfennau na ellir gwneud hebddo.

Ers adrodd y tro diwethaf, mae cynnydd wedi bod yn y niferoedd o gymorthyddion ELSA sydd wedi mynychu sesiynau goruchwyliaeth, ond nid yw yn ddigonol. Er mwyn cadw achrediad ELSA, ac er mwyn i'r tîm seicoleg wirio ansawdd y ddarpariaeth bwysig yma mewn ysgolion mae mynychu goruchwyliaeth bob hanner tymor yn HANFODOL. Nid yw'n glir beth sydd wedi galluogi i fwy o ELSAs fynychu y tro hwn ond mae'r tim yn cymryd bob cyfle i bwysleisio pwysigrwydd mynychu mewn unrhyw sgwrs gyda rydym yn gael gyda chydlynwyr ADY (CADY). Rydym wedi anfon ebost allan i ysgolion hefyd i ategu pwysigrwydd rhyddhau cymorthyddion ELSA o'u gwaith i ddod i dderbyn goruchwyliaeth.Er mwyn ymateb ymhellach (ac mae hyn wedi ei nodi chwarter diwethaf hefyd) rydym wedi trefnu i drafod y prosiect ELSA gyda phenaethiaid Gwynedd ym Mis Mai yn y gobaith y bydd hynny yn gwella eu dealltwriaeth o ofynion Rhwydwaith ELSA, sef fod rhaid i'r gwaith gael ei oruchwylio gan seicolegwyr addysg, ac felly bod rhaid i'r cymorthyddion gael eu rhyddhau i ddod i'r sesiynau .

Chwarterol | Elenid Glyn (ADDYSG)

*"Hyrwyddo cyflawniad a lles plant a phobl ifanc Gwynedd drwy sicrhau llywodraethiant, arweinyddiaeth a rheolaeth effeithiol ein hysgolion"*


# Addysg Ddewisiol Gartref

**Pwrpas:** Cefnogi Awdurdodau Lleol i gyflawni eu dyletswydd statudol i sicrhau bod pob dysgwr yn derbyn addysg addas ac effeithlon o dan adran 436A o Ddeddf Addysg 1996

Iaith

Multiple sele...

**Mesurydd:** % o ddisgyblion yn derbyn addysg addas i'w gallu




Yn ystod y cyfnod adrodd, cynhaliwyd ymweliadau â 32 o deuluoedd sy'n addysgu gartref. O'r rhain, nodwyd bod 24 o blant (75%) yn derbyn addysg sy'n cael ei hystyried yn addas i'w gallu. Mae'r data'n dangos bod 25% o'r plant a gafodd ymweliad ddim yn derbyn addysg sy'n bodloni'r meini prawf statudol ar hyn o bryd.

Mae'r canfyddiadau'n amlygu:

- Bod 75% o'r disgyblion a gafodd ymweliad yn derbyn addysg sy'n cael ei hystyried yn addas i'w gallu.
- Bod 25% o'r plant a aseswyd angen cefnogaeth neu welliant yn y ddarpariaeth addysg gartref.
- Nad yw'r ffigurau'n cynrychioli'r holl gofrestr gan fod ymweliadau'n digwydd yn flynyddol; felly mae'r data'n adlewyrchu'r teuluoedd a gafodd eu hasesu yn unig yn ystod y cyfnod hwn.

Mae'r wybodaeth hon yn tynnu sylw at yr angen i:

- Gryfhau monitro i sicrhau bod darpariaeth annigonol yn cael ei hadnabod yn brydlon.
- Dargedu cefnogaeth at y teuluoedd hynny lle nodwyd pryderon.
- Adolygu trefniadau ymweld i sicrhau bod y darlun a geir yn gynrychioliadol ac yn ddigon cadarn ar gyfer gwneud penderfyniadau polisi.

Misol | Ellen Rowlands (ADDYSG)

*"Hyrwyddo cyflawniad a lles plant a phobl ifanc Gwynedd drwy sicrhau llywodraethiant, arweinyddiaeth a rheolaeth effeithiol ein hysgolion"*


# Addysg Ddewisiol Gartref

**Pwrpas:** Cefnogi Awdurdodau Lleol i gyflawni eu dyletswydd statudol i sicrhau bod pob dysgwr yn derbyn addysg addas ac effeithlon o dan adran 436A o Ddeddf Addysg 1996

Iaith

Multiple sele...

**Mesurydd:** % o deuluoedd yn derbyn ymweliadau cartref




Mae'r ffigwr hwn yn adlewyrchu'r ffaith bod y tîm yn gweithio ar sail amserlen ymweliadau blynyddol, sy'n golygu nad oes disgwyl ymweld â phob teulu ym mhob cyfnod adrodd. Mae'r dull hwn yn sicrhau bod adnoddau'n cael eu targedu'n briodol ac yn caniatáu i'r tîm ganolbwyntio ar deuluoedd sydd angen cefnogaeth fwy dwys neu fwy rheolaidd.

- O'r ymweliadau oedd wedi ei rhaglenu yn y cyfnod, cafodd 42.95% ymweliad.
- Mae'r amserlen flynyddol yn golygu bod rhai teuluoedd yn cael ymweliadau wedi'u hamserlennu ymlaen llaw, tra bod eraill yn cael ymweliadau ychwanegol os oes angen.
- Mae'r patrwm hwn yn sicrhau cydbwysedd rhwng monitro rheolaidd a chefnogaeth hyblyg pan fo sefyllfaoedd yn newid.

Misol | Ellen Rowlands (ADDYSG)


*"Hyrwyddo cyflawniad a lles plant a phobl ifanc Gwynedd drwy sicrhau llywodraethiant, arweinyddiaeth a rheolaeth effeithiol ein hysgolion"*

# Addysg Ddewisiol Gartref

**Pwrpas:** Cefnogi Awdurdodau Lleol i gyflawni eu dyletswydd statudol i sicrhau bod pob dysgwr yn derbyn addysg addas ac effeithlon o dan adran 436A o Ddeddf Addysg 1996

Iaith
Multiple sele...

**Mesurydd:** Nifer dysgwyr Addysg Ddewisiol Gartref




Mae'r darlun diweddaraf yn dangos bod 284 o ddysgwyr ar y gofrestr Addysg Ddewisol Gartref. Ers 1 Ionawr 2026, mae 37 o ddisgyblion wedi ymuno â'r gofrestr, tra bod 10 wedi dychwelyd i'r ysgol. O'i gymharu â'r un cyfnod y llynedd, mae hyn yn cyfateb i gynnydd net o 20 o unigolion ar y gofrestr.
Mae'r cynnydd hwn yn cyd-fynd â'r patrymau a nodwyd gan rieni, sy'n adlewyrchu tueddiadau cenedlaethol ac nid ydynt yn unigryw i Wynedd.

Mae pedwar prif faes yn ymddangos yn gyson fel rhesymau dros ddewis Addysg Ddewisiol Gartref
• Iechyd meddwl -pryder, pryder cymdeithasol, iselder neu straen sy'n effeithio ar allu'r plentyn i ymgysylltu ag ysgol.
• Pwysau presenoldeb -teimlad bod disgwyliadau presenoldeb yn ychwanegu straen neu'n gwaethygu lles.
• Anghenion heb eu diwallu - teimlad nad yw'r ysgol yn gallu ymateb i anghenion y plentyn, yn enwedig mewn achosion sy'n ymwneud ag ADY, sensitifrwydd synhwyraidd neu brofiadau negyddol blaenorol.
• Ffordd o fyw - dewis teuluol am ddull dysgu mwy hyblyg neu bersonol, neu batrymau gwaith sy'n gwneud ADG yn fwy ymarferol na mynychu ysgol bob dydd.
Mae 21% o'r disgyblion sydd wedi dadgofrestru ers Medi 2025 yn ddisgyblion Blwyddyn 11. Mae hyn yn awgrymu:
• Bod rhai teuluoedd yn dewis ADG yn ystod cyfnodau pwysau uwch megis arholiadau.
• Bod disgyblion hŷn yn fwy tebygol o symud i ADG pan fo pryderon iechyd meddwl neu anghenion heb eu diwallu.
• Bod angen dealltwriaeth ddyfnach o'r ffactorau sy'n sbarduno dadgofrestru hwyr yn y sector uwchradd.
Mae'r rhesymau a nodwyd yn adlewyrchu tueddiadau ledled Cymru:
• Cynnydd mewn ADG sy'n gysylltiedig ag iechyd meddwl a phryder ysgol.
• Effaith pwysau presenoldeb a phrofiadau ôl-bandemig ar ddisgyblion.
• Teimlad bod ysgolion prif ffrwd ddim yn gallu ymateb yn ddigon hyblyg nac yn ddigon cyflym i anghenion unigol.
Goblygiadau i'r Gwaith Cefnogi
Mae'r patrwm hwn yn tynnu sylw at yr angen i gryfhau'r ymateb lleol mewn sawl maes:
• Cefnogaeth iechyd meddwl fwy cadarn mewn ysgolion.
• Dulliau presenoldeb mwy hyblyg ar gyfer disgyblion sy'n profi pryder neu straen.
• Deialog agored rhwng ysgolion a theuluoedd cyn i benderfyniadau ADG gael eu gwneud, er mwyn lleihau dadgofrestru y gellid ei atal.

Misol | Ellen Rowlands (ADDYSG)

*"Hyrwyddo cyflawniad a lles plant a phobl ifanc Gwynedd drwy sicrhau llywodraethiant, arweinyddiaeth a rheolaeth effeithiol ein hysgolion"*


# Cwnsela

**Pwrpas:** Darparu gwasanaeth cwnsela amserol i ddisgyblion

Iaith

Multiple sele...

**Mesurydd:** % o ddefnyddwyr sydd yn fodlon gyda chefnogaeth y gwasanaeth




Mae sylwadau yn hynod o bositif ar y cyfan am y gwasnaeth ond mae pobl ifanc yn bryderus am yr amser aros sydd rhaid iddynt ei ddisgwyl cyn cael cefnogaeth ag hefyd nad ydi y gefnogaeth yn ddigon hir dymor.

Misol

Meleri Wyn Jones (ADDYSG)


# Cwnsela

**Pwrpas:** Darparu gwasanaeth cwnsela amserol i ddisgyblion

Iaith

Multiple sele...

**Mesurydd:** Cymedr nifer y diwrnodau y mae angen disgwyl am wasanaeth




Mae nifer o ffactorau wedi cyfrannu at gynnydd yn amseroedd aros y gwasanaeth yn ystod y chwarter hwn. Gwelwyd cynnydd yn nifer y cyfeiriadau sy'n dod i mewn i'r gwasanaeth, ac mae'r cyfeiriadau hyn yn fwy cymhleth, gyda mwy o bobl ifanc yn cyflwyno anghenion emosiynol a therapiwtig dwysach, yn enwedig yn y cynradd. O ganlyniad, mae'r gwasanaeth wedi bod yn ymateb yn fwy hyblyg i lefel yr angen, gan ddarparu ymyriadau mwy hirdymor lle bo hynny'n briodol ac yn foesegol.
Ma pob cyfeiriad addas cynradd yn derbyn lleiafswm o 12 wythnos o Wasanaeth. Er bod hyn yn sicrhau cefnogaeth fwy priodol, effeithiol ag moesegol i'r unigolion hynny, mae hefyd wedi effeithio ar allu'r gwasanaeth i gynnig apwyntiadau newydd mor gyflym ag o'r blaen.
Yn ystod y tri mis diwethaf, bu ffocws ychwanegol ar hyfforddiant a datblygiad y tîm, gan gynnwys hyfforddiant mewn gwaith grŵp therapiwtig. Er bod hyn yn fuddsoddiad pwysig yn ansawdd a datblygiad y gwasanaeth yn y tymor hir, mae wedi effeithio rhywfaint ar gapasiti gweithredol y tîm yn y tymor byr.
Yn ogystal, mae nifer o staff yn parhau ar gyfnod mamolaeth, gydag aelod arall o staff ar absenoldeb tymor hir, sydd hefyd wedi effeithio ar gapasiti'r gwasanaeth dros y chwarter hwn.
Mae'r chwarter hwn hefyd yn cyd-fynd â'r cyfnod sy'n arwain at dymor arholiadau, ac mae hyn wedi arwain at gynnydd yn nifer yr unigolion sy'n cyflwyno lefelau uwch o bryder ac angen cefnogaeth ychwanegol yn ymwneud â straen ac iechyd emosiynol yn ystod y cyfnod hwnnw.


Misol | Meleri Wyn Jones (ADDYSG)

# Cynhwysiad

**Pwrpas:** Cefnogi ysgolion i ddarparu amgylchedd ddysgu i helpu plant a phobl ifanc dderbyn addysg addas

Iaith
Multiple sele...

**Mesurydd:** Nifer o waharddiadau parhaol Cynradd




Mae lefel y gwaharddiadau yn y sector cynradd yn parhau'n isel iawn, gyda dim ond un gwaharddiad parhaol wedi'i gofnodi yn ystod y cyfnod adrodd hwn. Fodd bynnag, nid yw'r gwaharddiad hwn wedi'i gadarnhau. Yn yr achos hwn, mae'r disgybl yn blentyn sydd â CDUA, ac mae'r Gwasanaeth yn gweithio ar sicrhau lleoliad arall iddo. Mae hyn yn cael ei wneud er mwyn:

- Osgoi i'r gwaharddiad parhaol gael ei gadarnhau'n ffurfiol.
- Atal i'r gwaharddiad ymddangos ar adroddiad ysgol y plentyn.
- Lleihau effaith hirdymor ar ei lwybr addysgol a'i gyfleoedd yn y dyfodol.
- Sicrhau bod y plentyn yn cael lleoliad sy'n gallu diwallu ei anghenion yn well.

Mae'r dull hwn yn adlewyrchu ymagwedd ragweithiol ac adferol yn y sector cynradd, gan geisio datrysiad sy'n diogelu lles y plentyn tra'n cynnal diogelwch a sefydlogrwydd yn yr ysgol.
Mae'r ffaith bod dim ond un achos wedi cyrraedd y cam hwn yn dangos bod ysgolion cynradd yn parhau i ddefnyddio dulliau ataliol effeithiol cyn cyrraedd gwaharddiad parhaol.
Mae'r gwaith o geisio lleoliad arall yn dangos ymrwymiad cryf i atebion cynhwysol ac i leihau effaith negyddol ar blant ag anghenion ychwanegol.
Mae'r sefyllfa'n cyd-fynd â'r neges ehangach o bwysigrwydd cyfeirio cynnar a chefnogaeth amlasiantaethol i atal achosion rhag dwysáu.

Misol | Ellen Rowlands (ADDYSG)


# Cynhwysiad

**Pwrpas:** Cefnogi ysgolion i ddarparu amgylchedd ddysgu i helpu plant a phobl ifanc dderbyn addysg addas

Iaith

Multiple sele...

**Mesurydd:** Nifer o waharddiadau parhaol Uwchradd




Mae lefel y gwaharddiadau yn parhau i fod yn ffactor sylweddol sy'n effeithio ar bresenoldeb a chynnydd disgyblion uwchradd. Yn ystod y cyfnod adrodd hwn:

- Cofnodwyd 10 gwaharddiad parhaol, gyda 4 ohonynt yn dod o un ysgol, sy'n dangos anghysondeb amlwg rhwng lleoliadau.
- Mae cyfanswm o 537 o waharddiadau penodol wedi gweithredu ers Medi gyda nifer sesiynau o gollwyd yn cyfateb i 4,338 sef 2,169 diwrnod ysgol. Noder: Nid yw gwaharddiadau parhaol wedi'u cynnwys yn y ffigwr hwn, felly mae'r effaith wirioneddol yn uwch fyth.
- Blwyddyn 9 a Blwyddyn 8 yw'r grwpiau blwyddyn sydd wedi colli'r mwyaf o amser dysgu oherwydd gwaharddiadau, gan ddangos bod y grwpiau hyn yn parhau i fod yn risg uchel o ran ymddygiad a phresenoldeb.

Patrymau ysgolion

- Mae pob ysgol uwchradd wedi gwahardd disgyblion ers Medi .
- Fodd bynnag, mae un ysgol yn gwahardd yn sylweddol uwch na'r lleill, gyda 128 cyfnod gwaharddiad, o'i chymharu â'r ddwy ysgol nesaf sydd â 83 a 87 .
- Mae hyn yn awgrymu gwahaniaethau mewn polisi, dulliau rheoli ymddygiad neu lefelau anghenion disgyblion rhwng ysgolion.

Cymhariaeth â'r llynedd

- Mae gwaharddiadau parhaol wedi lleihau'n sylweddol o'i gymharu â'r un cyfnod y llynedd.
- Roedd 33 gwaharddiad parhaol wedi'u cofnodi rhwng Medi a Mawrth y llynedd, o'i gymharu â 17 eleni.
- Mae hyn yn dangos tuedd gadarnhaol, ond mae'r niferoedd presennol yn dal i gynrychioli effaith sylweddol ar amser dysgu a phresenoldeb.

Goblygiadau strategol

- Mae'r lefel uchel o amser dysgu a gollir oherwydd gwaharddiadau yn cyfrannu'n uniongyrchol at y ffaith bod 32.5% o ddisgyblion uwchradd o dan 90% presenoldeb.
- Mae'r anghysondeb rhwng ysgolion yn awgrymu angen am:

adolygiad o bolisïau gwaharddiadau, rhannu arfer da, a chefnogaeth wedi'i dargedu i ysgolion sy'n gwahardd yn amlach.

- Mae'r gostyngiad mewn gwaharddiadau parhaol yn gadarnhaol, ond mae'r cyfanswm sesiynau a gollir yn parhau i fod yn uchel ac yn effeithio'n sylweddol ar gynnydd disgyblion.

Misol | Ellen Rowlands (ADDYSG)


# Lles

**Pwrpas:** Cefnogi disgyblion i sicrhau ei bod yn mynychu addysg yn llwyddiannus

Iaith

Multiple sele...

**Mesurydd:** % presenoldeb disgyblion Cynradd




Mae'r data'n dangos bod 19.9% o ddisgyblion cynradd yn gweithredu o dan y trothwy 90% presenoldeb, gyda salwch, gwyliau a nifer o absenoldebau anawdurdodedig heb reswm yn cyfrannu at y darlun. Er mwyn atal achosion rhag dwysáu ac i wella canlyniadau i ddisgyblion, mae dau gam gweithredu allweddol yn cael eu blaenoriaethu ar draws y sector cynradd.

Mae achosion cynradd sy'n parhau ar agor i'r GLLA (Gwasanaeth Llesiant ac Ymddygiad Dysgwyr) yn tueddu i fod ymhlith y rhai mwyaf heriol, gan gynnwys teuluoedd sy'n wynebu amgylchiadau cymhleth. Mae cyfeirio'n gynnar yn hanfodol i sicrhau bod cefnogaeth briodol ar waith cyn i'r sefyllfa waethygu. Mae hyn yn:

- Atal achosion rhag dwysáu ac yn lleihau'r angen am gamau statudol neu ymyraethau dwys.
- Caniatáu i'r GLLA gefnogi teuluoedd cyn i batrymau presenoldeb gwael ddod yn ingrained.
- Cryfhau'r berthynas rhwng ysgolion cynradd a'r GLLA, gan sicrhau dull cydlynol a chyson o reoli presenoldeb.

Mae'r dull hwn yn rhan o ymagwedd ataliol ehangach sy'n ceisio lleihau nifer yr achosion hirdymor ac yn gwella canlyniadau i ddisgyblion cynradd.

Mae 8 achos cynradd wedi dangos gwelliant sylweddol yn ystod y cyfnod adrodd, gan ddarparu cyfle pwysig i ddeall beth sy'n gweithio'n effeithiol mewn cyd-destun cynradd. Mae'r achosion hyn yn cynrychioli enghreifftiau o ymyraethau llwyddiannus ac yn cynnig tystiolaeth werthfawr y gellir ei defnyddio i lywio arfer da ar draws ysgolion eraill. Mi fydd yr ysgolion a'r GLLA yn edrych yn fwy manwl ar yr achosion hyn er mwyn cael darlun clir o:

- Pa ymyraethau penodol a sbardunodd newid cadarnhaol, megis cyfarfodydd teuluol cynnar, monitro tynnach, cefnogaeth lles wedi'i dargedu neu newidiadau mewn trefn gartref.
- Pa ffactorau teuluol neu ysgolion oedd yn allweddol i'r gwelliant, gan gynnwys lefel ymgysylltiad rhieni, cefnogaeth ychwanegol gan staff neu gydweithio amlasiantaethol.
- Sut y gellir atgynhyrchu'r dulliau hyn ar draws ysgolion cynradd eraill i wella cysondeb, lleihau amrywiad rhwng lleoliadau a chryfhau dulliau ataliol ar draws y sector.

Misol | Ellen Rowlands (ADDYSG)


Iaith

Multiple sele...

# Lles

**Pwrpas:** Cefnogi disgyblion i sicrhau ei bod yn mynychu addysg yn llwyddiannus

**Mesurydd:** % presenoldeb disgyblion Uwchradd




Mae 32.5% o ddisgyblion uwchradd ar hyn o bryd o dan y trothwy 90% presenoldeb, sy'n dangos lefel uchel o risg ar draws y sector. Mae dadansoddiad o'r rhesymau am absenoldeb yn amlygu darlun cymhleth sy'n cynnwys ffactorau awdurdodedig ac anawdurdodedig.

Absenoldebau awdurdodedig

Mae'r cyfraniad mwyaf yn dod o:

- Salwch
- Apwyntiadau meddygol
- Gwaharddiadau

Mae hyn yn dangos bod nifer sylweddol o ddisgyblion yn colli amser dysgu oherwydd materion iechyd, anghenion lles neu ymddygiad. Mae'r patrwm hwn yn tynnu sylw at yr angen am fonitro tynnach, gwaith ataliol ymddygiad a chyfathrebu cliriach â rhieni ynghylch apwyntiadau meddygol yn ystod amser ysgol.

Absenoldebau anawdurdodedig

Mae'r prif gyfranwyr yn cynnwys:

- Gwyliau yn ystod y tymor
- Hwyr

Mae gwyliau'n cael effaith sylweddol ar bresenoldeb uwchradd ac yn aml yn arwain at lithro pellach. Mae hwyr yn cyfrannu at absenoldebau anawdurdodedig ac yn aml yn adlewyrchu problemau trefniadol neu ymgysylltiad isel.

Camau gweithredu blaenoriaethol

Er mwyn ymateb i'r darlun hwn, mi fydd yn GLLA yn canolbwyntio ar:

- Datblygu dulliau gwella presenoldeb drwy'r Gwanwyn a'r Haf (ymgyrchoedd ymwybyddiaeth, nodau wythnosol, cyfarfodydd teuluol cynnar).
- Targedu grwpiau risg uchel gyda monitro wythnosol a galwadau rheolaidd i rieni cyn i achosion ddwysáu.
- Mapio achosion llwyddiannus i nodi a rhannu arfer da.
- Sicrhau bod Swyddogion Lles yn defnyddio data ansoddol a meintiol gyda'i gilydd i ddeall achosion yn llawn.
- Mireinio'r broses cyn-erlyniad i sicrhau cysondeb a thegwch.
- Atgyfnerthu monitro achosion agored dros 12 wythnos i atal llithro pellach.

Misol | Ellen Rowlands (ADDYSG)


# Lles

**Pwrpas:** Cefnogi disgyblion i sicrhau ei bod yn mynychu addysg yn llwyddiannus

Iaith

Multiple sele...

**Mesurydd:** % y disgyblion (sydd ar agor i'r Gwasanaeth Lles) sydd â rhieni wedi derbyn erlyniadau o dan 444 (1)




Yn ystod y cyfnod adrodd, roedd 1.9% o achosion agored i'r Gwasanaeth Llesiant ac Ymddygiad Dysgwyr (GLLA) wedi arwain at erlyniad o dan Adran 444(1) Deddf Addysg 1996 am fethu â sicrhau presenoldeb ysgol reolaidd. Mae'r gyfradd hon yn adlewyrchu patrwm gweithredu arferol y gwasanaeth, lle rhoddir blaenoriaeth i ymyraethau cefnogol cyn defnyddio camau statudol. Yn unol â hyn, mae erlyniadau'n gymharol brin yn nhymor yr Hydref, gyda chynnydd amlwg yn y Gwanwyn wrth i achosion hirdymor a mwy cymhleth barhau ar agor.

Mae'r data'n dangos tueddiad tymhorol clir: defnyddir cefnogaeth gynnar fel ymyrraeth gyntaf, ac erlyniadau dim ond pan fydd y dulliau hyn wedi methu. Mae'r achosion sy'n parhau hyd at dymor y Gwanwyn fel arfer yn llai ymatebol ac yn fwy cymhleth, gan ofyn am ystyriaethau ychwanegol.

Yn ystod y cyfnod, derbyniodd pedwar achos (chwe rhiant) Hysbysiadau Terfynol o Achos Llys. Aeth dau achos (tri rhiant) ymlaen i erlyniad, tra tynnwyd dau achos arall yn ôl cyn y gwrandawiad, naill ai oherwydd lliniariad sylweddol neu welliant amlwg mewn presenoldeb. Mae hyn yn dangos dull cymesur a thargedol, lle dim ond yr achosion mwyaf difrifol neu anatebol sy'n mynd ymlaen i'r llys.

Mae dadansoddiad yr achosion unigol yn dangos canlyniadau cymysg. Mewn un achos, arweiniodd pwysau statudol at welliant sylweddol iawn mewn presenoldeb, ond bu dirywiad dilynol, gan godi pryderon ynghylch cynaliadwyedd. Mewn achos arall, tynnwyd yr achos yn ôl oherwydd profedigaeth, gan ddangos sensitifrwydd y GLLA i amgylchiadau teuluol. Yn y ddau achos aeth ymlaen i'r llys, gwelwyd un achos gyda gwelliant mesuradwy ond presenoldeb yn parhau'n isel, a'r llall heb unrhyw welliant amlwg, gan awgrymu ymwrthedd i ymyrraeth.

Nodir risgiau gwasanaeth allweddol, gan gynnwys cynnydd mewn dwysedd achosion cymhleth, pwysau ar adnoddau cyfreithiol a'r gweithlu, a'r risg o ganlyniadau addysgol gwael os na sefydlogir presenoldeb. Er bod camau statudol yn effeithiol mewn rhai achosion, mae'r data'n tynnu sylw at yr angen parhaus am fonitro tynnach, dulliau aml-asiantaethol a chefnogaeth barhaus i sicrhau gwelliant cynaliadwy.

Misol | Ellen Rowlands (ADDYSG)

*"Hyrwyddo cyflawniad a lles plant a phobl ifanc Gwynedd drwy sicrhau llywodraethiant, arweinyddiaeth a rheolaeth effeithiol ein hysgolion"*


# Lles

**Pwrpas:** Cefnogi disgyblion i sicrhau ei bod yn mynychu addysg yn llwyddiannus

Iaith

Multiple sele...

**Mesurydd:** % y disgyblion sydd ar agor i'r Gwasanaeth Lles yn adrodd ar welliant mewn presenoldeb




Er bod nifer yr achosion ar agor i'r Gwasanaeth Lles Addysg wedi aros yn sefydlog yn ystod y cyfnod adrodd, mae'r data'n dangos newid clir yn y proffil, gan greu cyfleoedd i dargedu cefnogaeth yn fwy effeithiol. Ar hyn o bryd, mae 49% o'r disgyblion ar agor yn dangos gwelliant mewn presenoldeb, sy'n adlewyrchu effaith gadarnhaol ymyraethau'r gwasanaeth ar bron hanner y dysgwyr sy'n derbyn cefnogaeth barhaus. Ar yr un pryd, mae 51% nad ydynt eto'n dangos gwelliant. Mae'r grŵp hwn fel arfer yn cynnwys achosion mwy cymhleth, aml ffactorol neu hirdymor, sy'n gofyn am ddulliau mwy dwys neu arbenigol ac am gefnogaeth aml asiantaethol.

Newid yn y Proffil Achosion

Mae'r newid yn y dosbarthiad achosion yn cynnig mewnwelediad pwysig:

• 90% o'r achosion bellach yn y sector uwchradd, gan alluogi'r gwasanaeth i ganolbwyntio adnoddau lle mae'r angen mwyaf.

• Mae achosion sy'n cau yn parhau i gyrraedd y trothwy presenoldeb o 85%, sy'n dangos bod y llwybr cau yn gweithio'n gyson.

• 93% o'r achosion a gaewyd yn y cyfnod hwn yn achosion uwchradd, gan adlewyrchu effeithiolrwydd ymyraethau ar gyfer y grŵp hwn er gwaethaf eu cymhlethdod.

Dehongli'r Tueddiadau

Mae'r cynnydd mewn achosion uwchradd yn darparu cyfle i:

• Dargedu cefnogaeth fwy arbenigol ar gyfer achosion hirdymor neu aml ffactorol.

• Gryfhau partneriaethau aml asiantaethol i ymateb i anghenion mwy cymhleth.

• Adolygu capasiti'r gweithlu i sicrhau bod adnoddau'n cyd-fynd â'r galw cynyddol yn y sector uwchradd.

Er bod y gyfradd gwelliant wedi gostwng i 49%, mae hyn yn gyson â thueddiadau cenedlaethol ac yn adlewyrchu natur y dysgwyr sy'n parhau ar agor sef y rhai sydd â'r anghenion mwyaf cymhleth ac sy'n llai tebygol o ymateb i ymyraethau byr-dymor.

Camau Statudol a Goblygiadau

Mae'r defnydd o gamau statudol yn dangos:

• Bod y gwasanaeth yn gweithredu'n gadarn pan nad yw cefnogaeth gynnar yn ddigonol.

• Bod prosesau monitro yn sicrhau bod achosion difrifol yn cael eu rheoli'n briodol.

• Bod angen asesu effaith camau statudol ar newid ymddygiad a phresenoldeb.

Cyfleoedd Strategol

Mae'r data'n tynnu sylw at gyfleoedd clir i gryfhau'r ymateb:

• Cryfhau ymyraethau tymhorol yn ystod y Gwanwyn.

• Datblygu dulliau cynnar cadarn yn y sector cynradd i leihau achosion uwchradd cymhleth yn y dyfodol.

• Adolygu'r trothwy presenoldeb o 85% ar gyfer achosion uwchradd cymhleth.

• Cynllunio gweithlu wedi'i dargedu i ymateb i'r newid mewn proffil achosion.


Misol | Ellen Rowlands (ADDYSG)

# Saesneg fel Iaith Ychwanegol

**Pwrpas:** Gweithio gyda phlant a phobl ifanc sydd yn dod o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig er mwyn eu galluogi i gael mynediad i addysg a chymuned ddwy-ieithog Cymraeg a Saesneg

Iaith
Multiple sele...

**Mesurydd:** % o blant a phobl ifanc sydd yn derbyn mewnbwn uniongyrchol ac yn gwneud cynnydd




Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion unigol a'r grwpiau wedi dangos cynnydd cadarnhaol dros y tymor. Mae rhai wedi symud ymlaen o fewn eu Camau presennol, tra bo eraill wedi gwneud cynnydd sylweddol gan symud o Gam A i Gam B.

• Oherwydd y cynnydd hwn, rydym yn bwriadu dod â'r gefnogaeth i ben i nifer o ddisgyblion ar ddiwedd y tymor. Bydd hyn yn ein galluogi i ystyried cyfeiriadau newydd yn ystod fforwm diwedd Ebrill.

• Cyfeiriadau newydd: Mae 11 o ddisgyblion newydd eisoes wedi'u cyfeirio i'r fforwm yng Ngwynedd (hyd at 25 Mawrth), er nad yw'r dyddiad cau tan 17 Ebrill.

• Mae rhai ysgolion hefyd wedi ailgyfeirio disgyblion lle maent yn teimlo y byddai'r unigolion hyn yn elwa o cefnogaeth pellach.

Chwarterol | Helen Elisabeth Speddy (ADDYSG)


# Saesneg fel Iaith Ychwanegol

**Pwrpas:** Gweithio gyda phlant a phobl ifanc sydd yn dod o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig er mwyn eu galluogi i gael mynediad i addysg a chymuned ddwy-ieithog Cymraeg a Saesneg

Iaith

Multiple sele...

**Mesurydd:** % presenoldeb y disgyblion sydd yn derbyn cefnogaeth




Mae presenoldeb y disgyblion sydd wedi derbyn cefnogaeth dros y tymor wedi bod yn gadarnhaol.

Dim pryderon: Nid yw'r ysgolion wedi adrodd unrhyw bryderon ynghylch presenoldeb y disgyblion hyn.


Chwarterol | Helen Elisabeth Speddy (ADDYSG)

# Swyddogion Ymgysylltu Teuluoedd

**Pwrpas:** Cefnogi gwell deilliannau addysgol i blant o gefndiroedd difreintiedig neu sy'n agored i fathau eraill o niwed drwy fynd i'r afael â materion yn yr amgylchedd dysgu yn y cartref

Iaith
Multiple sele...

**Mesurydd:** % o ddisgyblion sydd wedi derbyn cefnogaeth yn adrodd ar gynnydd llesiant




Mae 63% o'r disgyblion sydd ar agor i'r tîm wedi dangos cynnydd yn ystod y cyfnod adrodd hwn. Mae'r cynnydd hwn yn cael ei asesu drwy gyfuniad o ffynonellau, gan roi darlun cadarn ac aml-ffynhonnell o sut mae disgyblion yn symud ymlaen.

Sut mae'r cynnydd yn cael ei fesur:
Mae'r asesiad yn seiliedig ar wybodaeth sy'n dod o sawl ffynhonnell, gan gynnwys:
• Adroddiadau ysgolion – gwybodaeth ffurfiol ar gynnydd presenoldeb, ymgysylltiad, ymddygiad a lles.
• Adborth gan unigolion sy'n derbyn cefnogaeth, barn y disgyblion eu hunain ar eu cynnydd a'u profiad.
• Adborth gan rieni ,persbectif y teulu ar newid mewn hyder, presenoldeb neu ymddygiad.
• Data caled yn enwedig presenoldeb ac ymddygiad, sy'n rhoi mesur gwrthrychol o gynnydd.

Beth mae'r ganran yn ei olygu:
• Mae'r 63% yn dangos bod y mwyafrif o ddisgyblion sy'n derbyn cefnogaeth yn gwneud cynnydd mesuradwy.
• Mae'r dull aml-ffynhonnell yn sicrhau bod y cynnydd yn cael ei ddeall yn eang, nid yn seiliedig ar un ffynhonnell yn unig.
• Mae'r data'n awgrymu bod ymyraethau'r tîm yn cael effaith gadarnhaol ar ran sylweddol o'r disgyblion.

Misol | Ellen Rowlands (ADDYSG)


# Swyddogion Ymgysylltu Teuluoedd

**Pwrpas:** Cefnogi gwell deilliannau addysgol i blant o gefndiroedd difreintiedig neu sy'n agored i fathau eraill o niwed drwy fynd i'r afael â materion yn yr amgylchedd dysgu yn y cartref

Iaith

Multiple sele...

**Mesurydd:** % o ddisgyblion yn mynychu ein gweithgareddau cymunedol




Mae 54% o'r disgyblion sydd ar agor i'r tîm wedi cymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol yn ystod y cyfnod adrodd yma. Mae'r lefel hon o gyfranogiad yn dangos ymrwymiad cadarnhaol gan y disgyblion ac yn adlewyrchu effaith y gefnogaeth sy'n eu hannog i ymgysylltu â'u cymuned leol.

Mae'r gweithgareddau a nodwyd yn amrywiol ac yn cynnig cyfleoedd i ddatblygu sgiliau cymdeithasol, empathi a chyfrifoldeb. Ymhlith y gweithgareddau mae:

- Casglu sbwriel, cyfrannu at lanhau a gwella'r amgylchedd lleol.
- Cynnal te pnawn i'r henoed, meithrin cysylltiadau rhwng cenedlaethau a hyrwyddo lles cymdeithasol.
- Cefnogi yn siop gymuned Maesincla, datblygu sgiliau gwasanaeth cwsmer a chyfrifoldeb cymunedol.
- Pontio'r cenedlaethau – gweithgareddau sy'n cysylltu pobl ifanc â'r henoed i feithrin dealltwriaeth a chydlyniant cymdeithasol.

Mae'r lefel uchel o gyfranogiad yn awgrymu bod disgyblion yn elwa ar gyfleoedd i ddatblygu hyder, sgiliau rhyngbersonol a chysylltiad â'u cymuned ac fod yn gweithgareddau'n cefnogi lles emosiynol ac yn gallu lleihau teimladau o unigrwydd neu ddadrithiad.

Mae'r patrwm hwn yn dangos bod y gefnogaeth a gynigir gan y tîm yn helpu disgyblion i gymryd rhan mewn profiadau cadarnhaol y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth.


Misol | Ellen Rowlands (ADDYSG)

# Canolfannau Iaith

**Pwrpas:** Hyrwyddo cyflawniad a lles plant a phobl ifanc Gwynedd i gaffael y Gymraeg

Iaith
Multiple sele...

**Mesurydd:** % o blant a phobl ifanc sydd yn cyrraedd Lefel 1 neu uwch ar ddiwedd eu cyfnod mewn Canolfan Iaith (Cynradd)




Mae disgyblion Cynradd yn caffael iaith i'r lefel hon yn llwyddiannus iawn gan siarad yn ddealladwy, ymateb yn briodol i ymadroddion, cyfarwyddiadau a chwestiynau syml a chyfleu gwybodaeth. Mae'r adborth gan ddisgyblion ar ddiwedd y cwrs yn dangos eu bod wedi mwynhau eu hamser yn y canolfannau yn fawr ac yn falch o'u cynnydd.

Chwarterol | Siwan Llwyd Roberts (ADDYSG)


*"Hyrwyddo cyflawniad a lles plant a phobl ifanc Gwynedd drwy sicrhau llywodraethiant, arweinyddiaeth a rheolaeth effeithiol ein hysgolion"*

# Canolfannau Iaith

**Pwrpas:** Hyrwyddo cyflawniad a lles plant a phobl ifanc Gwynedd i gaffael y Gymraeg

Iaith
Multiple sele...

**Mesurydd:** % o blant a phobl ifanc sydd yn cyrraedd Lefel 2 ar ddiwedd eu cyfnod mewn Canolfan Iaith (Cynradd)




Mae'r gostyngiad bychan hwn yn adlewyrchu perfformiad cohort penodol gyda phroffil anghenion cymhleth ac nid yw'r canlyniadau hyn yn dangos patrwm cyson dros amser.
Bu staff y Gyfundrefn yn gweithio'n agos â'r ysgolion i ddarparu tystiolaeth ar gyfer CDU ac i ymateb i dargedau penodol y disgyblion drwy gydol y cwrs.
Roedd perfformiad y dysgwyr i gyd yn dangos cynnydd clir a chyflym, gyda thystiolaeth amlwg o sawl nodwedd Lefel 2 ym mhob achos. Serch hynny, roedd cyfuniad o ffactorau, gan gynnwys anghenion dysgu penodol ac amgylchiadau teuluol cymhleth, yn ddylanwad ar rai lefelau terfynol.
Mae'r gefnogaeth yn y canolfannau ac yn yr ysgolion yn parhau.

Chwarterol | Siwan Llwyd Roberts (ADDYSG)


# Canolfannau Iaith

**Pwrpas:** Hyrwyddo cyflawniad a lles plant a phobl ifanc Gwynedd i gaffael y Gymraeg

Iaith

Multiple sele...

**Mesurydd:** % o blant a phobl ifanc sydd yn cyrraedd Lefel 1 neu uwch ar ddiwedd eu cyfnod mewn Canolfan Iaith (Uwchradd)




Erys y canlyniadau'n gyson ardderchog. Mae disgyblion Uwchradd yn caffael iaith i'r lefel hon yn llwyddiannus iawn gan siarad yn ddealladwy, ymateb yn briodol i ymadroddion, cyfarwyddiadau a chwestiynau syml a chyfleu gwybodaeth. Mae ymatebion disgyblion mewn holiaduron ar ddiwedd y cwrs yn dangos eu bod yn mwynhau eu cyfnod yn y canolfannau, ac yn ymfalchïo yn eu llwyddiant a'u cynnydd.


Chwarterol | Siwan Llwyd Roberts (ADDYSG)

# Canolfannau Iaith

**Pwrpas:** Hyrwyddo cyflawniad a lles plant a phobl ifanc Gwynedd i gaffael y Gymraeg

Iaith
Multiple sele...

**Mesurydd:** % o blant a phobl ifanc sydd yn cyrraedd Lefel 2 ar ddiwedd eu cyfnod mewn Canolfan Iaith (Uwchradd)




Mae'r ganran hon yn seiliedig ar berfformiad cohort bychan o ddisgyblion gyda phroffil anghenion cymhleth. Roedd hwn yn grŵp neilltuol o ran eu hanghenion dysgu, ac nid yw'r canlyniadau'n adlewyrchu patrwm perfformiad arferol nac unrhyw duedd dros dreigl amser.
Mewn ymateb, mae staff y Gyfundrefn wedi darparu cyfres o wersi cefnogi wedi eu teilwra'n benodol i anghenion y disgyblion nad oedd yn cyrraedd holl ofynion Lefel 2 ac mae'r gefnogaeth yn y canolfannau ac yn yr ysgolion yn parhau. Roedd perfformiad dau ddisgybl o fewn y cohort hwn yn arbennig o gryf, gan arddangos holl nodweddion Lefel 3 a pherfformiad disgybl arall ar frig Lefel 2.

Chwarterol | Siwan Llwyd Roberts (ADDYSG)

# Y Gymraeg

**Pwrpas:** Sicrhau bod plant Gwynedd yn cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg ac yn hyderus i ddefnyddio'r Gymraeg yn eu bywydau bob dydd

Iaith
Multiple sele...

**Mesurydd:** % o ddysgwyr cynradd ysgol gyfan sy'n ymgymryd ag o leiaf 70% o'u gweithgareddau ysgol (cwricwlaidd ac allgyrsiol) yn Gymraeg - Gwynedd




Mae'r data sy'n bwydo'r mesurydd hwn yn cael ei gasglu unwaith y flwyddyn.

Chwarterol
Siwan Llwyd Roberts (ADDYSG)

*"Hyrwyddo cyflawniad a lles plant a phobl ifanc Gwynedd drwy sicrhau llywodraethiant, arweinyddiaeth a rheolaeth effeithiol ein hysgolion"*


# Y Gymraeg

**Pwrpas:** Sicrhau bod plant Gwynedd yn cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg ac yn hyderus i ddefnyddio'r Gymraeg yn eu bywydau bob dydd

Iaith

Multiple sele...

**Mesurydd:** % o ddysgwyr uwchradd ysgol gyfan sy'n ymgymryd ag o leiaf 70% o'u gweithgareddau ysgol (cwricwlaidd ac allgyrsiol) yn Gymraeg - Gwynedd




Mae'r data sy'n bwydo'r mesurydd hwn yn cael ei gasglu unwaith y flwyddyn.

Chwarterol | Siwan Llwyd Roberts (ADDYSG)

*"Hyrwyddo cyflawniad a lles plant a phobl ifanc Gwynedd drwy sicrhau llywodraethiant, arweinyddiaeth a rheolaeth effeithiol ein hysgolion"*


# Y Gymraeg

**Pwrpas:** Sicrhau bod plant Gwynedd yn cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg ac yn hyderus i ddefnyddio'r Gymraeg yn eu bywydau bob dydd

Iaith

Multiple sele...

**Mesurydd:** % o bynciau Blwyddyn 10 ac 11 sy'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg




Mae'r data sy'n bwydo'r mesurydd hwn yn cael ei gasglu unwaith y flwyddyn.

Chwarterol — Siwan Llwyd Roberts (ADDYSG)

# Y Gymraeg

**Pwrpas:** Sicrhau bod plant Gwynedd yn cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg ac yn hyderus i ddefnyddio'r Gymraeg yn eu bywydau bob dydd

Iaith

Multiple sele...

**Mesurydd:** % o athrawon cynradd sy'n hyderus i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg




Mae'r data sy'n bwydo'r mesurydd hwn yn cael ei gasglu unwaith y flwyddyn.

Chwarterol | Siwan Llwyd Roberts (ADDYSG)

# Y Gymraeg

**Pwrpas:** Sicrhau bod plant Gwynedd yn cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg ac yn hyderus i ddefnyddio'r Gymraeg yn eu bywydau bob dydd

Iaith

Multiple sele...

**Mesurydd:** % o athrawon uwchradd sy'n hyderus i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg




Mae'r data sy'n bwydo'r mesurydd hwn yn cael ei gasglu unwaith y flwyddyn.

Chwarterol | Siwan Llwyd Roberts (ADDYSG)


# Gwasanaeth Ieuenctid

**Pwrpas:** Dwi eisiau i chi wrando arna i, a cynnwys fi; fel fy mod yn gallu bod yn berson ifanc, iach, hapus a diogel i wella fy llesiant i helpu mi gyrraedd fy llawn botensial

Iaith

Multiple sele...

**Mesurydd:** % o'r bobl ifanc a fyddai'n dymuno parhau i fynychu sesiynau llesiant yn y dyfodol.




Mae'r ystadegau'n dangos bod cyfran sylweddol o bobl ifanc yn mynegi awydd i barhau i fynychu sesiynau'r Gwasanaeth Ieuenctid yn y dyfodol. Mae hyn yn adlewyrchu lefel uchel o ymgysylltiad a bodlonrwydd gyda'r ddarpariaeth, ac yn awgrymu bod y sesiynau'n cael eu gweld fel rhai perthnasol, gwerthfawr ac ymatebol i'w hanghenion. Mae'r mesur hwn hefyd yn ddangosydd pwysig o gynaladwyedd y gwasanaeth a'i allu i feithrin perthnasoedd hirdymor gyda phobl ifanc.

Cesglir y wybodaeth hon gan weithwyr ieuenctid ar ddiwedd sesiynau drwy adborth uniongyrchol, gan ofyn cwestiynau syml ynghylch bwriad pobl ifanc i ddychwelyd. Defnyddir trafodaethau anffurfiol, dulliau adborth strwythuredig a holiaduron byr i gasglu'r data, a chaiff hyn ei ategu gan fewnbwn o fforymau llais pobl ifanc a dulliau ymgysylltu eraill er mwyn darparu darlun ehangach o'u hymrwymiad a'u diddordeb.

Mae'r canlyniadau'n cael eu dylanwadu gan sawl ffactor, gan gynnwys safon a pherthnasedd y gweithgareddau, cryfder y berthynas rhwng gweithwyr a phobl ifanc, cysondeb y ddarpariaeth, a dylanwadau allanol megis ymrwymiadau ysgol, materion cludiant neu amgylchiadau personol. O gymharu â'r mis neu'r chwarter blaenorol, mae'r ffigyrau'n parhau'n sefydlog, gyda thueddiad amlwg fod pobl ifanc sy'n mynychu'n rheolaidd neu sydd â chyfle i ddylanwadu ar gynnwys sesiynau yn fwy tebygol o nodi eu bwriad i barhau i gymryd rhan.

Er mwyn cynnal a chryfhau'r perfformiad hwn, bydd y Gwasanaeth Ieuenctid yn parhau i gynnwys pobl ifanc wrth gynllunio a datblygu'r ddarpariaeth, sicrhau amrywiaeth o weithgareddau sy'n adlewyrchu diddordebau lleol, a cheisio cynnal cysondeb staff i feithrin perthnasoedd cadarn. Pe bai unrhyw ostyngiad yn cael ei nodi, bydd camau'n cynnwys adolygu amseriad a lleoliad sesiynau, gwella cyfathrebu ynghylch cyfleoedd sydd ar gael, a defnyddio adborth pobl ifanc i ail-lunio'r ddarpariaeth er mwyn hybu ymgysylltiad parhaus.

Misol | Steffan Williams (ADDYSG)


# Gwasanaeth Ieuenctid

**Pwrpas:** Dwi eisiau i chi wrando arna i, a cynnwys fi; fel fy mod yn gallu bod yn berson ifanc, iach, hapus a diogel i wella fy llesiant i helpu mi gyrraedd fy llawn botensial

Iaith

Multiple sele...

**Mesurydd:** % o'r bobl ifanc ble mae eu Lles wedi gwella ar ôl mynychu'r gwasanaeth




Mae'r ystadegau'n dangos bod canran sylweddol o bobl ifanc yn adrodd gwelliant yn eu llesiant ar ôl cymryd rhan yn sesiynau'r Gwasanaeth Ieuenctid. Mae hyn yn awgrymu bod y ddarpariaeth yn cael effaith gadarnhaol ar eu lles emosiynol, cymdeithasol a phersonol, drwy ddarparu amgylchedd diogel lle gallant fynegi teimladau, magu hyder a meithrin perthnasoedd iach.
Cesglir y mesur hwn gan weithwyr ieuenctid ar ddiwedd sesiynau drwy gyfuniad o drafodaethau adborth ffurfiol ac anffurfiol, ynghyd â dulliau hunanasesu megis graddfeydd llesiant syml (er enghraifft, sut mae person ifanc yn teimlo cyn ac ar ôl sesiwn). Ategir hyn gan ddata ansoddol o holiaduron, nodiadau arsylwi gweithwyr ieuenctid a mewnbwn o fforymau llais pobl ifanc, gan ddarparu darlun ehangach o'r newidiadau a brofir.

Mae'r canlyniadau'n cael eu dylanwadu gan sawl elfen, gan gynnwys cynnwys a strwythur y sesiynau, safon y berthynas rhwng gweithwyr a phobl ifanc, lefel eu hymgysylltiad, a ffactorau allanol fel pwysau addysgol, amgylchiadau teuluol neu heriau iechyd meddwl ehangach. O gymharu â'r mis neu'r chwarter blaenorol, mae'r canlyniadau'n parhau'n gyson, gyda thueddiad clir o welliant mwy amlwg ymhlith pobl ifanc fregus neu'r rhai sy'n mynychu'n rheolaidd dros gyfnod. Yn benodol, mae sesiynau sy'n canolbwyntio ar sgiliau bywyd, llesiant emosiynol a gweithgareddau grŵp cefnogol yn tueddu i greu'r effaith fwyaf cadarnhaol.

Er mwyn cynnal a datblygu'r perfformiad hwn ymhellach, bydd y Gwasanaeth Ieuenctid yn parhau i roi blaenoriaeth i lesiant wrth gynllunio a chyflwyno sesiynau, gan bwysleisio dulliau sy'n seiliedig ar berthynas, gwrando gweithredol a chefnogaeth emosiynol briodol. Pe bai unrhyw ostyngiad yn cael ei nodi, bydd camau'n cynnwys adolygu ffocws a strwythur y sesiynau, cryfhau'r defnydd o offer mesur llesiant, ac ehangu cyfleoedd i bobl ifanc gyfrannu at siapio'r ddarpariaeth er mwyn sicrhau ei bod yn parhau'n ymatebol i'w hanghenion.

Misol | Steffan Williams (ADDYSG)


# Gwasanaeth Ieuenctid

**Pwrpas:** Dwi eisiau i chi wrando arna i, a cynnwys fi; fel fy mod yn gallu bod yn berson ifanc, iach, hapus a diogel i wella fy llesiant i helpu mi gyrraedd fy llawn botensial

Iaith

Multiple sele...

**Mesurydd:** % o'r bobl ifanc sydd wedi cyflawni amcanion eu cynlluniau personol




Dros y tri mis diwethaf, mae canran y bobl ifanc sydd wedi cyflawni amcanion o fewn eu cynlluniau personol wedi cynyddu ychydig ers y cyfarfod diwethaf. Mae'r cynnydd hwn yn arwydd cadarnhaol o effaith barhaus y gefnogaeth a ddarperir, ac yn dangos bod y dull cynllunio person-ganolog yn parhau i gefnogi cynnydd mesuradwy ymhlith pobl ifanc.
Mae'r cynlluniau personol hyn yn cael eu cyd-greu gyda phob person ifanc, gan sicrhau eu bod yn adlewyrchu eu hanghenion, eu diddordebau a'u dyheadau unigol. Maent yn cynnwys targedau tymor byr a hirdymor, gan alluogi pobl ifanc i weld cynnydd graddol a datblygu ymdeimlad o berchnogaeth dros eu taith ddatblygu. Mae'r broses hon yn cryfhau cymhelliant, yn meithrin hyder ac yn darparu fframwaith clir ar gyfer adolygu cynnydd yn rheolaidd.
Yn ystod y cyfnod diweddar, mae'r Gwasanaeth wedi datblygu a gweithredu system gofnodi ddigidol newydd, ynghyd â system Microsoft Power BI er mwyn gallu dadansoddi a gwerthuso'r data a gesglir yn fwy effeithiol. Mae hyn wedi hwyluso'r broses o olrhain cynnydd yn erbyn targedau unigol, adnabod patrymau a thueddiadau, a chynhyrchu adroddiadau clir sy'n dangos effaith y ddarpariaeth.
O ganlyniad, mae'r gwasanaeth bellach mewn sefyllfa gryfach i ddangos tystiolaeth gadarn o ganlyniadau a chyflawniadau pobl ifanc, gan sicrhau bod cynllunio, monitro a gwerthuso yn rhan annatod o'r ddarpariaeth ac yn cyfrannu at welliant parhaus.

Misol — Steffan Williams (ADDYSG)


# Gwasanaeth Ieuenctid

**Pwrpas:** Dwi eisiau i chi wrando arna i, a cynnwys fi; fel fy mod yn gallu bod yn berson ifanc, iach, hapus a diogel i wella fy llesiant i helpu mi gyrraedd fy llawn botensial

Iaith

Multiple sele...

**Mesurydd:** % o'r bobl ifanc sydd wedi gwella eu llesiant dros gyfnod o 3 mis (tim 16-25)




Mae'r ganran o bobl ifanc sydd wedi dangos gwelliant yn eu llesiant dros y tri mis diwethaf wedi cynyddu ers y cyfarfod diwethaf. Mae'r duedd gadarnhaol hon yn awgrymu bod y ddarpariaeth yn parhau i gael effaith fuddiol ar lesiant pobl ifanc, ac yn dangos arwyddion o adferiad yn dilyn amrywiadau tymhorol blaenorol.
Caiff gwelliant mewn llesiant ei fesur drwy raglen Warwick-Edinburgh Mental Wellbeing Scale (WEMWBS), sef offeryn cydnabyddedig sy'n galluogi monitro lles meddwl yn y boblogaeth gyffredinol, yn ogystal â gwerthuso effaith prosiectau, rhaglenni a pholisïau sy'n anelu at wella llesiant meddyliol. Mae defnyddio'r offeryn hwn yn sicrhau dull safonol, dibynadwy ac yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn.
Er bod amrywiadau bach yn gallu digwydd o dymor i dymor, mae'r cynnydd presennol yn cyd-fynd â'r patrwm blynyddol a welir yn hanesyddol, lle mae lefelau llesiant yn tueddu i wella wrth symud allan o fisoedd y gaeaf pan fo pwysau ychwanegol yn aml yn wynebu pobl ifanc. Mae hyn yn adlewyrchu natur ddeinamig llesiant, sy'n gallu newid drwy gydol y flwyddyn yn ôl yr amgylchiadau a'r anghenion unigol.
O ganlyniad, mae'r duedd bresennol yn gadarnhaol ac yn rhoi sicrwydd bod y ddarpariaeth yn parhau i ymateb yn briodol i anghenion pobl ifanc. Bydd y ganran yn parhau i gael ei monitro'n agos dros y misoedd nesaf er mwyn sicrhau bod y gwelliant hwn yn cael ei gynnal, a bod unrhyw newidiadau pellach yn cael eu hadnabod a'u hystyried yn brydlon.


Misol | Steffan Williams (ADDYSG)

# Gwasanaeth Ieuenctid

**Pwrpas:** Dwi eisiau i chi wrando arna i, a cynnwys fi; fel fy mod yn gallu bod yn berson ifanc, iach, hapus a diogel i wella fy llesiant i helpu mi gyrraedd fy llawn botensial

Iaith
Multiple sele...

**Mesurydd:** % o'r bobl ifanc sydd wedi mwynhau'r gwasanaeth a ddarperir




Mae'r ystadegau'n dangos bod cyfran uchel iawn o bobl ifanc yn parhau i nodi eu bod yn mwynhau darpariaeth y Gwasanaeth Ieuenctid. Mae hyn yn awgrymu bod y cynnig yn dal yn berthnasol, yn apelio at bobl ifanc ac yn diwallu eu hanghenion ar draws yr ardaloedd. Mae'r lefel gyson o foddhad yn adlewyrchu safon y gwaith ymgysylltu a'r perthnasoedd cryf sy'n cael eu meithrin rhwng gweithwyr ieuenctid a phobl ifanc.

Cesglir y mesur hwn gan weithwyr ieuenctid ar ddiwedd pob sesiwn drwy adborth uniongyrchol gan bobl ifanc, gan ddefnyddio dulliau syml megis systemau sgorio, trafodaethau byr mewn grwpiau neu weithgareddau adborth anffurfiol. Ategir hyn gan ddata o holiaduron ffurfiol, fforymau llais pobl ifanc a dulliau ymgysylltu eraill, sy'n cynnig darlun ehangach a mwy cynhwysfawr o brofiadau pobl ifanc.

Mae sawl ffactor yn dylanwadu ar y canlyniadau hyn, gan gynnwys safon a pherthnasedd y gweithgareddau, gallu'r gweithwyr i addasu sesiynau i anghenion lleol, cryfder y berthynas a'r ymddiriedaeth gyda phobl ifanc, ynghyd â chysondeb y ddarpariaeth. O gymharu â'r mis neu'r chwarter blaenorol, mae'r ffigyrau'n parhau'n sefydlog, gyda thueddiad clir o foddhad uchel mewn lleoliadau lle mae presenoldeb rheolaidd a chyfleoedd gwirioneddol i bobl ifanc gyfrannu at lunio'r ddarpariaeth. Yn benodol, mae sesiynau sy'n cael eu cyd-gynllunio gyda phobl ifanc yn derbyn yr adborth mwyaf cadarnhaol.

Er mwyn cynnal y safonau hyn, bydd y Gwasanaeth Ieuenctid yn parhau i roi llais canolog i adborth pobl ifanc wrth gynllunio sesiynau, sicrhau cefnogaeth a chyfleoedd datblygiad proffesiynol i weithwyr, a rhannu arferion effeithiol ar draws y timau. Pe bai unrhyw ostyngiad mewn perfformiad yn cael ei nodi, bydd camau'n cynnwys adolygu cynnwys sesiynau, ehangu'r dulliau o gasglu adborth ansoddol, a gweithio'n agos gyda phobl ifanc i ail-ddylunio'r ddarpariaeth lle bo angen.


Misol | Steffan Williams (ADDYSG)

# Gwasanaeth Ieuenctid

**Pwrpas:** Dwi eisiau i chi wrando arna i, a cynnwys fi; fel fy mod yn gallu bod yn berson ifanc, iach, hapus a diogel i wella fy llesiant i helpu mi gyrraedd fy llawn botensial

Iaith
Multiple sele...

**Mesurydd:** Llwythi Achos Gwasanaeth Cymorth Ieuenctid 16-25 oed




Mae'r data ar gyfer y tri mis diwethaf yn dangos twf sylweddol yn nifer y cyfeiriadau i'r prosiect, gyda galw cynyddol am y ddarpariaeth. O ganlyniad i'r cynnydd hwn, mae nifer o bobl ifanc bellach ar restr aros oherwydd cyfyngiadau capasiti presennol y prosiect. Mae hyn yn dystiolaeth glir o'r angen am y gwasanaeth a'r effaith gadarnhaol y mae'n ei chael yn y gymuned.
Casglwyd y data drwy gofnodion mewnol y gwasanaeth, yn seiliedig ar yr unigolion sydd wedi cael eu cynnwys yn ffurfiol ar lwyth achos y gweithwyr ieuenctid ar ôl cwblhau'r broses gyfeirio berthnasol. Mae hyn yn sicrhau bod y ffigurau'n adlewyrchu ymgysylltiad gweithredol a chefnogaeth strwythuredig yn hytrach na chyswllt anffurfiol yn unig.

Fodd bynnag, rhagwelir heriau pellach yn y dyfodol agos, gan fod un o rolau staff y prosiect yn dod i ben yn dilyn diwedd y cyllid a dderbyniwyd drwy'r SPF. Bydd hyn yn debygol o gael effaith ar gapasiti'r prosiect i ymateb i'r galw cynyddol ac i leihau'r rhestr aros, oni bai y sicrheir ffynhonnell gyllid amgen.
Mae'n bwysig nodi hefyd fod 85% o'r bobl ifanc sy'n cael eu cefnogi gan y prosiect yn unigolion â hanes o bresenoldeb ysgol isel iawn, wedi dadgofrestru o'r ysgol, neu'n ddisgyblion EBSA. Mae hyn yn tanlinellu natur dargededig a chynhwysol y ddarpariaeth, a'i rôl allweddol wrth gefnogi pobl ifanc sydd fwyaf mewn perygl o ymddieithrio o addysg a gwasanaethau prif ffrwd.
O ystyried bod y niferoedd wedi codi, y ffocws yw cynnal y lefelau presennol o berfformiad da. Bydd hyn yn cael ei gyflawni drwy barhau i feithrin perthnasoedd cadarn gyda phartneriaid atgyfeirio, monitro llwythi achos unigol yn rheolaidd i osgoi gorbwysau ar weithwyr, a sicrhau bod prosesau cyfeirio'n parhau'n glir ac yn effeithiol. Os bydd arwyddion o lithro mewn perfformiad yn y dyfodol, bydd camau'n cael eu cymryd i adolygu capasiti'r tîm a blaenoriaethu'r achosion mwyaf brys yn unol ag anghenion y bobl ifanc.


Misol | Steffan Williams (ADDYSG)

# Gwasanaeth Ieuenctid

**Pwrpas:** Dwi eisiau i chi wrando arna i, a cynnwys fi; fel fy mod yn gallu bod yn berson ifanc, iach, hapus a diogel i wella fy llesiant i helpu mi gyrraedd fy llawn botensial

Iaith
Multiple sele...

**Mesurydd:** Nifer o achrediadau mae'r bobl ifanc wedi eu cwblhau (mesur pob 3 mis)




Dros y cyfnod adrodd diweddaraf, gwelwyd cynnydd sylweddol yn nifer yr achrediadau a gwblhawyd gan bobl ifanc drwy ddarpariaeth y Gwasanaeth Ieuenctid. Mae'r ffigwr presennol yn uwch na'r hyn a adroddwyd dros y blynyddoedd diwethaf, gan ddangos tuedd gadarnhaol o ran ymgysylltiad, ymrwymiad a chynnydd personol ymhlith pobl ifanc ar draws y sir.

Mae'r achrediadau a gwblhawyd yn cynnwys cymwysterau Dug Caeredin, unedau Agored Cymru, a modiwlau drwy Virtual College. Mae'r ystod yma o gymwysterau yn adlewyrchu amrywiaeth y cyfleoedd sydd ar gael, gan alluogi pobl ifanc i ddatblygu sgiliau bywyd, sgiliau gwaith, hyder, arweinyddiaeth a gwytnwch mewn cyd-destun anffurfiol ond strwythuredig.

Mae'r cynnydd yn y ffigyrau yn dystiolaeth o waith pwrpasol staff i integreiddio achredu i weithgareddau wythnosol a phrosiectau penodol, gan sicrhau bod pobl ifanc yn gweld gwerth clir i'w cyfranogiad. Yn bwysig, mae hyn yn cyd-fynd yn llwyr ag ethos y Gwasanaeth Ieuenctid o gynnig addysg anffurfiol o safon uchel a chyfleoedd amgen i bobl ifanc lwyddo y tu allan i'r cymwysterau academaidd craidd.

Yn ogystal, mae'r data yn dangos bod achredu yn arf effeithiol i gynyddu cymhelliant ac ymdeimlad o gyflawniad ymhlith pobl ifanc, yn enwedig y rhai nad ydynt bob amser yn ffynnu mewn lleoliadau ffurfiol. Bydd y gwasanaeth yn parhau i adeiladu ar y momentwm hwn drwy ehangu'r cynnig achredu a sicrhau bod cyfleoedd clir ar gael ar draws pob ardal gymunedol.


Misol | Steffan Williams (ADDYSG)

# Gwasanaeth Ieuenctid

**Pwrpas:** Dwi eisiau i chi wrando arna i, a cynnwys fi; fel fy mod yn gallu bod yn berson ifanc, iach, hapus a diogel i wella fy llesiant i helpu mi gyrraedd fy llawn botensial

Iaith
Multiple sele...

**Mesurydd:** Nifer o gyfranogiadau pobl ifanc sydd wedi defnyddio Gwasanaeth Cymunedol Ieuenctid




Cyfranogiadau
Ionawr - 1897
Chwefror-2067
Mawrth- 1987

Unigolion
Ionawr-301
Chwefror-264
Mawrth-289

Mae'r data perfformiad ar gyfer y tri mis diwethaf yn dangos bod nifer y cyfranogiadau a'r unigolion unigryw sy'n mynychu darpariaeth clybiau cymunedol y Gwasanaeth Ieuenctid wedi parhau'n gyson uchel drwy gydol y cyfnod. Er y gwelwyd cynnydd pellach yn ystod y mis mwyaf diweddar, mae'r ffigyrau cyffredinol wedi aros ar lefel gadarn, gan adlewyrchu'r ffaith bod y clybiau cymunedol bellach wedi'u sefydlu'n llawn a bod nifer o glybiau newydd wedi agor yn ystod y cyfnod.
Ar hyn o bryd, mae'r ffigyrau'n gyffredinol yn cyfateb i ddata'r un cyfnod yn y blynyddoedd blaenorol, gan ddangos sefydlogrwydd a chryfder yn y ddarpariaeth.
Fodd bynnag, disgwylir i'r niferoedd ostwng yn sylweddol yn ystod y cyfnod nesaf gan fod y clybiau cymunedol yn cau dros gyfnod yr haf tan fis Medi. Bydd y gostyngiad hwn felly yn adlewyrchu newid tymhorol yn y ddarpariaeth yn hytrach nag unrhyw ostyngiad mewn galw neu ymgysylltiad.
Mae'r data wedi'i gasglu drwy gofrestri presenoldeb a gwblheir gan weithwyr ieuenctid ar ddiwedd pob sesiwn clwb cymunedol. Mae'r dull hwn yn sicrhau cysondeb wrth gasglu gwybodaeth ac yn galluogi monitro effeithiol o dueddiadau perfformiad dros amser, gan ddarparu cyd-destun clir ar gyfer dehongli unrhyw amrywiadau tymhorol.
Yn ei gyfanrwydd, mae'r data'n dangos perfformiad sefydlog a chryf dros y tri mis diwethaf, gyda gostyngiad rhagweladwy yn y cyfnod nesaf oherwydd trefniadau tymhorol y ddarpariaeth, ac mae disgwyl i'r niferoedd gynyddu eto ar ôl ailagor y...


Misol | Steffan Williams (ADDYSG)

# Gwasanaeth Ieuenctid

**Pwrpas:** Dwi eisiau i chi wrando arna i, a cynnwys fi; fel fy mod yn gallu bod yn berson ifanc, iach, hapus a diogel i wella fy llesiant i helpu mi gyrraedd fy llawn botensial

Iaith
Multiple sele...

**Mesurydd:** Nifer o gyfranogiadau pobl ifanc sydd wedi defnyddio'r Gwasanaeth Cymorth Ieuenctid 11-19 oed




Cyfranogiadau
Ionawr- 1002
Chwefror-1126
Mawrth- 986
Unigolion
Ionawr-283
Chwefror-289
Mawrth-223

Mae'r data perfformiad ar gyfer y tri mis diwethaf yn dangos bod lefelau cyfranogiad a nifer yr unigolion unigryw sydd wedi manteisio ar y Gwasanaeth Ieuenctid wedi parhau'n gyson uchel, gan gynnal y momentwm cadarnhaol a welwyd yn flaenorol. O'u cymharu â'r un cyfnod mewn blynyddoedd blaenorol, mae'r lefelau hyn yn dal yn uwch, gan adlewyrchu galw sefydlog a chryf am ddarpariaeth y gwasanaeth, ynghyd â lefel uchel o ymgysylltiad gan bobl ifanc ar draws ystod eang o weithgareddau a lleoliadau.

Casglwyd y ffigyrau'n gyson drwy gofrestru presenoldeb a gwblheir gan weithwyr ieuenctid ar ddiwedd pob sesiwn. Mae'r dull casglu hwn yn sicrhau bod y data'n adlewyrchu presenoldeb gwirioneddol ac yn darparu sail gadarn ar gyfer monitro perfformiad a thueddiadau dros amser, gan gryfhau hyder yn ddibynadwyedd y canlyniadau.

Mae nifer o ffactorau allweddol wedi cyfrannu at gynnal y safonau uchel hyn. Mae'r holl ddarpariaethau ysgol bellach wedi'u sefydlu'n llawn, gan sicrhau mynediad cyson a rheolaidd i bobl ifanc. Yn ogystal, mae prosiectau cymunedol newydd wedi ehangu'r ddarpariaeth i ardaloedd a grwpiau ychwanegol, gan gynyddu'r cyfleoedd i gymryd rhan. Mae gweithgareddau ychwanegol, megis tripiau llesiant penodol, hefyd wedi cyfrannu at gynnal lefelau cyfranogiad cadarn.

Yn gyffredinol, mae'r data'n dangos perfformiad sefydlog a chryf dros y cyfnod dan sylw, gan adlewyrchu effaith barhaus datblygiad y ddarpariaeth a'r buddsoddiad parhaus mewn gwaith ieuenctid.

Misol | Steffan Williams (ADDYSG)

*"Hyrwyddo cyflawniad a lles plant a phobl ifanc Gwynedd drwy sicrhau llywodraethiant, arweinyddiaeth a rheolaeth effeithiol ein hysgolion"*

# Hyfforddiant Mandadol

| % Staff yr Adran Addysg (gan gynnwys y Gwasanaeth Arlwyo a Glanhau) sydd wedi cwblhau'r hyfforddiant Diogelu | % Staff yr Adran Addysg (gan gynnwys y Gwasanaeth Arlwyo a Glanhau) sydd wedi cwblhau'r hyfforddiant VAWDASV (Cam-drin Domestig) |
| --- | --- |
| **34.80%** | **48.00%** |

| % Staff yr Adran Addysg (gan eithrio'r Gwasanaeth Arlwyo a Glanhau) sydd wedi cwblhau'r hyfforddiant Diogelu | % Staff yr Adran Addysg (gan eithrio'r Gwasanaeth Arlwyo a Glanhau) sydd wedi cwblhau'r hyfforddiant VAWDASV (Cam-drin Domestig) |
| --- | --- |
| **96.80%** | **94.00%** |

Mae'r Gwasanaeth Arlwyo a Glanhau yn cynnwys dros 600 o staff mewn swyddi yn y Gwasanaethau Ategol. Mae nifer o staff y Gwasanaeth Arlwyo a Glanhau wedi derbyn hyfforddiant diogelu sylfaenol gan yr ysgol.

O'r swyddogion sy'n weddill sydd heb gwblhau'r hyfforddiant (ac yn eithrio'r Gwasanaeth Arlwyo a Glanhau), mae'r mwyafrif i ffwrdd o'r gwaith oherwydd salwch hirdymor, mamolaeth neu wedi'u gwahardd.

Rydym yn cydweithio gyda'r Adran Gwasanaethau Corfforaethol er mwyn sicrhau bod yr holl staff yn y Gwasanaeth Arlwyo a Glanhau yn gallu cwblhau'r modiwlau hyfforddiant mandadol.